Adran 2: Adroddiad sector

Adroddiad Blynyddol **2010-2011**

Estyn
Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

Cynnwys

Ysgolion cynradd *03*
Perfformiad a rhagolygon 03
Deilliannau 04
Darpariaeth 06
Arweinyddiaeth a rheolaeth 08

Ysgolion uwchradd *10*
Perfformiad a rhagolygon 10
Deilliannau 11
Darpariaeth 13
Arweinyddiaeth a rheolaeth 15

Ysgolion arbennig a gynhelir *17*
Perfformiad a rhagolygon 17
Deilliannau 18
Darpariaeth 19
Arweinyddiaeth a rheolaeth 20

Ysgolion arbennig annibynnol *21*
Perfformiad a rhagolygon 21
Deilliannau 22
Darpariaeth 23
Arweinyddiaeth a rheolaeth 24

Ysgolion annibynnol *25*
Perfformiad a rhagolygon 25
Deilliannau 26
Darpariaeth 27
Arweinyddiaeth a rheolaeth 28

Colegau arbenigol annibynnol *29*
Deilliannau 29
Darpariaeth 30
Arweinyddiaeth a rheolaeth 31

Unedau cyfeirio disgyblion *32*
Perfformiad a rhagolygon 32
Deilliannau 33
Darpariaeth 34
Arweinyddiaeth a rheolaeth 35

Lleoliadau i blant dan bump oed *36*
Perfformiad a rhagolygon 36
Deilliannau 37
Darpariaeth 38
Arweinyddiaeth a rheolaeth 39

Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc *40*
Perfformiad a rhagolygon 40
Deilliannau 41
Darpariaeth
Cymorth i wella ysgolion 42
Cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant addysgol 43
Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles 44
Mynediad a lleoedd ysgol 45
Arweinyddiaeth a rheolaeth 46
Ysgolion y mae angen gweithgarwch dilynol ynddynt 47

Sefydliadau addysg bellach *49*
Perfformiad a rhagolygon 50
Deilliannau 50
Darpariaeth 51
Arweinyddiaeth a rheolaeth 52

Dysgu yn y gwaith *53*
Perfformiad a rhagolygon 53
Deilliannau 54
Darpariaeth 55
Arweinyddiaeth a rheolaeth 56

Dysgu oedolion yn y gymuned *57*
Perfformiad a rhagolygon 58
Deilliannau 58
Darpariaeth 59
Arweinyddiaeth a rheolaeth 60

Dysgu yn y system gyfiawnder *61*
Deilliannau 61
Darpariaeth 61
Arweinyddiaeth a rheolaeth 61

Ysgolion cynradd

Yn Ionawr 2011, roedd 1,435 o ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae'r ffigur 27 yn llai nag yn Ionawr 2010 pan oedd 1,462 o ysgolion. Roedd 259,189 o ddisgyblion yn yr ysgolion cynradd yn Ionawr 2011, sy'n fwy na'r flwyddyn flaenorol pan oedd 257,445 o ddisgyblion. Dyma'r cynnydd cyntaf er 1998 yn nifer y disgyblion cynradd.

Perfformiad a rhagolygon

Eleni, fe arolygon ni 238 o ysgolion cynradd. Mae perfformiad yn dda neu'n well yn tua phedair o bob pump o'r ysgolion yma. Mae'n rhagorol ar y cyfan mewn 5% o'r ysgolion cynradd. Digonol yw perfformiad 19% o'r ysgolion cynradd, ac mae'n anfoddhaol mewn 2%.

Mae'r farn ar y perfformiad presennol wedi'i seilio ar y farn a ffurfiwyd mewn ymateb i'r tri chwestiwn allweddol, y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth.

Y rhagolygon gwella yw hyder yr arolygwyr yng ngallu'r darparwr i ysgogi ei welliant ei hun yn y dyfodol. Mae'r rhagolygon gwella naill ai'n dda neu'n well yn bron i dri chwarter yr ysgolion cynradd, ac yn rhagorol yn 8% ohonyn nhw. Digonol yw'r rhagolygon yn 22% o'r ysgolion cynradd, ac maen nhw'n anfoddhaol yn 3%.

Mae angen ymweliadau dilynol gan Estyn ar ryw 23% o'r ysgolion cynradd, gan gynnwys 5% sy'n peri pryder difrifol. Mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn pedair ysgol gynradd, mae angen gwelliant sylweddol mewn wyth, ac mae angen ymweliad monitro gan Estyn ar 43 o'r ysgolion cynradd. Cafodd 21% arall farn arolygu oedd yn 'dda' ar y cyfan, ond mae ganddyn nhw un neu fwy o feysydd pwysig i'w gwella. Rydyn ni wedi gofyn i'r awdurdodau lleol am adroddiad manwl ar y cynnydd mae 51 o'r ysgolion yma'n ei wneud.

Yn yr ysgolion lle mae gofyn rhoi mesurau arbennig ar waith:

- mae'r perfformiad presennol a'r rhagolygon gwella'n anfoddhaol;
- mae cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau a ddisgwylir mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol ymhell islaw'r gyfran mewn ysgolion tebyg;
- nid yw'r athrawon yn cynnig digon o her i'r disgyblion yn y gwersi;
- mae'r arweinyddiaeth a'r cyfeiriad strategol yn wan ac nid yw'r arweinwyr yn herio tanberfformio;
- nid yw'r hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwella'n ddigon trylwyr; ac
- ychydig o gynnydd mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad blaenorol.

Yn yr ysgolion a gafodd eu henwi fel rhai yr oedd angen eu gwella'n sylweddol neu angen monitro gan Estyn, y diffygion mwyaf cyffredin oedd:

- nid yw'r safonau, yr addysgu a'r profiadau dysgu fawr gwell na digonol;
- mae diffygion sylweddol yn yr arweinyddiaeth ac anaml bydd y llywodraethwyr yn herio perfformiad; ac
- mae'r rhagolygon gwella naill ai'n ddigonol neu'n anfoddhaol oherwydd arweinyddiaeth wael.

Mae safonau da a rhagolygon gwella da gan lawer o'r ysgolion y mae angen i'r awdurdod lleol eu monitro. Er hynny, nid yw'r prosesau newydd ar gyfer hunanarfarnu a gwella'r ysgol wedi effeithio eto ar y deilliannau.

Deilliannau

Mae safonau'n dda neu'n well ar y cyfan yn rhyw bedair o bob pump o'r ysgolion cynradd a gafodd eu harolygu.

Mae tuedd o wella'n raddol yn llawer o'r ysgolion, ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn y rhan fwyaf o feysydd y cwricwlwm. Mae llawer ohonyn nhw'n cyrraedd y lefel a ddisgwylir yn asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mewn mwyafrif o'r ysgolion yma, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyson uchel.

Mae'r safonau'n rhagorol yn ychydig iawn o'r ysgolion yma. Yn yr ysgolion yma, mae'r holl ddisgyblion bron yn gwneud cynnydd da iawn o lefel eu cyrhaeddiad ar adeg eu derbyn i'r ysgol, ac o gymharu â chynnydd disgyblion ysgolion tebyg. Yn yr ysgolion rhagorol yma, mae'r disgyblion wedi ennill digon o hyder i weithio heb fawr o oruchwyliaeth gan yr athrawon. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn trafodaethau ystyriol ac adeiladol, ac maen nhw'n gallu darllen, ysgrifennu a defnyddio medrau rhif yn dda yn y gwahanol sefyllfaoedd ac ym mhob un o bynciau'r cwricwlwm.

Yn tua phedair o bob pum ysgol, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da gan ddatblygu eu medrau siarad, gwrando, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Ond yn tua 30% o'r ysgolion, mae pryder o hyd ynghylch safonau darllen ac ysgrifennu.

Yn llawer o'r ysgolion, mae'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu eu medrau siarad, gwrando, darllen a mathemategol. Mae'r disgyblion yn dod yn fwy a mwy annibynnol ac yn defnyddio'u medrau meddwl yn dda. Ond yn y Cyfnod Sylfaen, yn bron i chwarter yr ysgolion a gafodd eu harolygu, mae gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn llawn camgymeriadau sillafu ac atalnodi syml, ac nid ydyn nhw'n ysgrifennu darnau digon hir. Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 hefyd, mae gwaith ysgrifennu'r disgyblion ar draws y cwricwlwm yn wan. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, nid yw llawer o'r disgyblion wedi datblygu digon ar eu medrau darllen uwch fel cip-ddarllen a sganio, ac maen nhw'n ei chael hi'n anodd dethol gwybodaeth berthnasol o wahanol ffynonellau. Yn achos gormod o'r ysgolion, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd ac yn datblygu eu medrau darllen.

Cau'r bwlch

Ysgol Gymraeg Cwm Garw wedi defnyddio cyfuniad o strategaethau effeithiol i gau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad merched a chyrhaeddiad bechgyn.

I weld mwy o wybodaeth am hyn, cyfeiriwch at yr astudiaeth achos.

Ffigur 2.1: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Roedd yr adroddiadau arolygu ar ychydig dros 30% o'r ysgolion cynradd eleni'n cynnwys argymhellion i wella safonau yn y Saesneg a'r Gymraeg fel iaith gyntaf.

Yn rhyw bedair o bob pum ysgol, mae'r disgyblion yn dysgu medrau rhifedd da yn eu gwersi mathemateg. Ond dim ond yn tua dwy o bob pum ysgol y mae'r disgyblion yn gallu defnyddio'r medrau rhifedd yma'n hyderus yn y rhannau eraill o'r cwricwlwm. Mewn lleiafrif o'r ysgolion, nid yw gallu'r disgyblion cyfnod allweddol 2 i feddwl a dysgu'n annibynnol yn ddigon cadarn.

> *"Ym mhob ysgol bron, mae'r disgyblion yn ystyriol o bobl eraill ac yn eu trin â pharch a gofal. Yn y mwyafrif o'r ysgolion, mae'r disgyblion yn barod iawn i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, er enghraifft fel cynghorwyr ysgol neu fel aelodau o bwyllgorau eco."*

Mae'r safonau mae disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn eu cyflawni'n ddigonol neu'n well yn llawer o'r ysgolion. Ond yn rhyw 30% o'r ysgolion, nid yw'r grŵp yma o ddisgyblion yn cyflawni gystal ag y dylen nhw o hyd. Mae'r bwlch rhwng eu perfformiad nhw a pherfformiad y disgyblion eraill yn dal yn rhy fawr.

Yn llawer o'r ysgolion, mae'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o ran eu galluoedd.

At ei gilydd, nid yw bechgyn eto'n cyflawni gystal â merched, yn enwedig yn Saesneg, er nad yw hyn yn wir mewn rhai ysgolion unigol. Yn un o bob deg ysgol, nid yw'r bechgyn yn cyflawni ar y lefel a ddisgwylir ar gyfer eu hoed yn Saesneg. Ble mae'r bechgyn yn gwneud yn well, mae eu hysgolion yn tueddu i:

- gynnig cymorth wedi'i dargedu a chymorth o wahanol fathau ar gyfer medrau llythrennedd;
- rhoi pwyslais ar weithgareddau cystadleuol i dimau yn y cwricwlwm;
- defnyddio meddalwedd cwricwlwm technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sydd wedi'i haddasu'n bwrpasol;
- cynnig gweithgareddau ymarferol y tu allan i oriau'r ysgol er mwyn datblygu llefaredd;
- defnyddio dynion fel modelau rôl; a
- chynnwys rhieni a gofalwyr yn systematig mewn gweithgareddau dysgu fel darllen.

Mewn mwyafrif o'r ysgolion, mae safonau Cymraeg ail iaith y disgyblion yn dda, ac mae eu medrau siarad, gwrando a darllen Cymraeg yn datblygu'n dda. Yn y Cyfnod Sylfaen yn benodol, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Ond yng nghyfnod allweddol 2, nid yw disgyblion lleiafrif sylweddol o'r ysgolion yn parhau i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn ddigon da.

Mae ansawdd lles y disgyblion yn dda neu'n well ym mhob ysgol gynradd bron. Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn ymddwyn yn dda yn y rhan fwyaf o'r ysgolion. Mae agweddau'r rhan fwyaf o'r disgyblion tuag at ddysgu'n gadarnhaol, ac maen nhw'n frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn deall sut y dylen nhw weithredu er mwyn bod yn iach. Maen nhw'n gwybod am bwysigrwydd diet cytbwys ac ymarfer corff rheolaidd. Mae llawer ohonyn nhw'n cymryd rhan mewn dewis da o weithgareddau allgyrsiol er mwyn cadw'n heini.

Gwella lles disgyblion – cael Llais

Mae gwaith y Tîm LLAIS yn **Ysgol Gynradd Glan Usk**, Casnewydd, wedi gwella lles a safon dysgu'r disgyblion ar draws yr ysgol gyfan.

I weld mwy o wybodaeth am hyn, cyfeiriwch at yr ***astudiaeth achos***.

Nid yw'r cyfraddau presenoldeb (93%) wedi newid fawr ddim dros y chwe blynedd diwethaf. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae presenoldeb yn waeth yn yr ardaloedd o anfantais gymdeithasol ac economaidd. Mae cysylltiad clir rhwng cyfraddau uchel o absenoldeb a safonau isel yn yr ysgolion a gafodd eu harolygu eleni.

Ym mhob ysgol bron, mae'r disgyblion yn ystyriol o bobl eraill ac yn eu trin â pharch a gofal. Yn y mwyafrif o'r ysgolion, mae'r disgyblion yn barod iawn i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, er enghraifft fel cynghorwyr ysgol neu fel aelodau o bwyllgorau eco. Ond yn tua un o bob tair ysgol, mae'r disgyblion yn cael rôl rhy fach yn y dasg o wneud penderfyniadau, yn enwedig y penderfyniadau ynglŷn â sut a beth y byddan nhw'n ei ddysgu.

Darpariaeth

Mae'r ddarpariaeth at ei gilydd yn dda neu'n well yn ychydig dros bedair o bob pump o'r ysgolion yr arolygon ni eleni.

Yn tua thri chwarter yr ysgolion mae'r profiadau dysgu'n dda neu'n well. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yma, mae'r athrawon yn defnyddio gwersi sydd wedi'u cynllunio'n dda i ddatblygu gwybodaeth a gallu'r disgyblion yn systematig. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yma'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac mae'r staff yn darparu amrediad da o brofiadau dysgu diddorol i'r disgyblion.

Mewn gwersi iaith, mathemateg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, mae mwyafrif o'r ysgolion yn mynd ati i gynllunio'n ofalus er mwyn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion. Mae ychydig o'r ysgolion yn rhoi pwyslais pendant ar ddefnyddio'r medrau yma ym mhob profiad dysgu. Ond dim ond lleiafrif o'r ysgolion sy'n cynllunio'n systematig y dasg o ddatblygu medrau darllen, ysgrifennu a meddwl y disgyblion, ym mhob un o feysydd y cwricwlwm.

Yn tua un o bob deg ysgol, nid yw'r athrawon yn addasu'r cwricwlwm i ddiwallu anghenion y disgyblion mwyaf galluog a'r disgyblion lleiaf galluog. Nid ydyn nhw'n gosod tasgau sy'n ymestyn y rhai mwyaf galluog, a thasgau eraill i gynorthwyo'r rhai llai galluog. Mae athrawon yn gwneud yn well ar y cyfan wrth gynorthwyo'r disgyblion llai galluog nag ydyn nhw wrth ymestyn y disgyblion mwy galluog.

Yn llawer o'r ysgolion, mae'r ddarpariaeth ar gyfer siarad a darllen Cymraeg fel ail iaith yn dda yn y gwersi Cymraeg. Ond yng nghyfnod allweddol 2, cyfyngedig yw'r ddarpariaeth sydd yn y gwersi eraill ar gyfer ysgrifennu yn Gymraeg a defnyddio'r iaith. Mae llawer o'r ysgolion yn mynd ati'n dda i ddatblygu gwybodaeth y disgyblion am faterion amgylcheddol a materion byd-eang.

Mae llawer o'r ysgolion yn cyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar ffurf cylch o weithgareddau sy'n digwydd yn gyson. Yn yr arfer orau y gwelon ni mae diben clir i'r gweithgareddau ac mae'r cynnwys a lefel y cymorth yn cyfateb i anghenion y plant. Ond ble mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio'n wael, efallai bod y plant yn edrych yn brysur ond nid ydyn nhw'n gwneud llawer o gynnydd. Maen nhw'n ailadrodd gweithgareddau heb ddatblygu eu gwybodaeth na'u dealltwriaeth.

Yn gyffredinol, mae'r addysgu'n dda neu'n well yn llawer o'r ysgolion. Yn y nifer bach iawn o ysgolion ble mae'r addysgu'n gyson yn rhagorol, mae disgwyliadau pob aelod o'r staff yn uchel. Maen nhw'n defnyddio dewis arloesol o strategaethau i herio a chadw diddordeb y disgyblion. Ond yn tua un o bob pump o'r ysgolion, nid yw'r addysgu fawr gwell na digonol ar y cyfan. Yn yr ysgolion yma, mae cyflymder y gwersi'n rhy araf ac mae gormod o ddefnydd o daflenni gwaith. O ganlyniad nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso a datblygu eu medrau'n annibynnol. Yn tua un o bob pump o'r ysgolion nid yw'r athrawon yn herio digon ar y dysgwyr mwy galluog mewn trafodaethau yn yr ystafell ddosbarth.

Ffigur 2.2: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Yn bron i hanner yr ysgolion a gafodd eu harolygu, mae rhai agweddau neu lawer o agweddau ar yr asesu'n wan. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi rhoi polisïau asesu priodol ar waith, ond nid yw'r athrawon bob amser yn eu defnyddio'n gyson. Yn gyffredinol mae'r athrawon yn rhoi sylwadau ar ansawdd eu gwaith i'r disgyblion, ond nid ydyn nhw bob amser yn dangos i'r disgyblion sut i wella'u gwaith. Yn ychydig o'r ysgolion, nid yw gwaith y disgyblion yn cael ei farcio'n ddigon rheolaidd. Mae mwyafrif o'r athrawon yn defnyddio'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu wrth farcio gwaith y disgyblion i gynllunio gwersi. Maen nhw'n mynd ati'n amlach i gynnwys y disgyblion yn y dasg o asesu eu cynnydd eu hunain. Mae mwyafrif o'r athrawon yn defnyddio systemau olrhain i gofnodi cynnydd.

Mae llawer o'r ysgolion wedi rhoi trefniadau da ar waith i asesu gwaith y disgyblion ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Mae'r ysgolion yn cydweithio'n dda ag ysgolion eraill yr ardal i wneud trefniadau ar y cyd. Ond yn tua chwarter yr ysgolion, nid yw asesiadau diwedd cyfnod allweddol yr athrawon yn ddigon cywir.

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn gryfderau ym mhob ysgol bron. Mae'r ysgolion wedi gwneud trefniadau effeithiol i sicrhau iechyd a lles y disgyblion. Fe welon ni fod pob ysgol bron yn llwyddo i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion, a bod y rhan fwyaf ohonyn nhw wedi creu diwylliant cadarn o onestrwydd a pharchu ei gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi rhoi trefniadau da ar waith i helpu'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Maen nhw'n defnyddio gwasanaethau arbenigol yn dda i gynorthwyo'r disgyblion yma. Nid yw lleiafrif o'r ysgolion yn mynd ati'n ddigon manwl i fonitro cynnydd y disgyblion sydd ar raglenni ymyrraeth.

Mae bron pob ysgol wedi creu polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol. Mae'r ysgolion yma'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn adnabod a pharchu amrywiaeth.

Mae ychydig iawn o'r ysgolion wedi methu addasu polisïau diogelu generig eu hawdurdod lleol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Yn yr achosion yma, nid yw'r polisïau diogelu'n bodloni'r holl ofynion statudol ac nid yw pob aelod o'r staff yn gwybod am y gweithdrefnau priodol ar gyfer rhoi gwybod am bryderon.

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn gwneud defnydd da neu well o'u hadeiladau a'u hadnoddau i hybu'r dysgu. Fe welon ni fod ychydig o'r ysgolion yn gwneud defnydd rhagorol o fannau yn yr awyr agored fel y lotments lleol a chyfleusterau neu goetiroedd cymunedol i wella cyfleoedd dysgu'r disgyblion. Mae'r defnydd o amgylchedd yr awyr agored wedi gwella'n sylweddol i helpu'r plant i ddysgu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Ond nid yw tua un o bob deg ysgol yn defnyddio digon o'r awyr agored ar gyfer chwarae a dysgu'n annibynnol yn ystod y Cyfnod Sylfaen.

> *"Fe welon ni fod pob ysgol bron yn llwyddo i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion, a bod y rhan fwyaf ohonyn nhw wedi creu diwylliant cadarn o onestrwydd a pharchu ei gilydd."*

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well yn nhri chwarter yr ysgolion a gafodd eu harolygu. Yn tua un o bob deg ysgol mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol. Yn yr ysgolion yma, mae disgwyliadau'r arweinwyr yn uchel ac maen nhw'n rhoi pwyslais cadarn ar wella safonau ac ansawdd.

Mae llawer o'r ysgolion wedi rhoi systemau rheoli perfformiad priodol ar waith. Ond yn rhyw chwarter yr ysgolion cynradd nid yw'r rheolwyr yn rhoi digon o sylw i danberfformiad athrawon unigol.

Yn llawer o achosion, mae llywodraethwyr yr ysgol yn cynorthwyo'r pennaeth yn effeithiol ac maen nhw'n rhan weithredol o'r broses o osod cyfeiriad eu hysgol. Maen nhw'n gwybod llawer am y blaenoriaethau o ran gwella ac maen nhw'n rheoli cyllidebau'n briodol. Yn chwarter yr ysgolion o leiaf, mae rhai agweddau ar waith y llywodraethwyr yn wan. Yn yr ysgolion yma, nid yw'r llywodraethwyr yn gwybod digon ar y cyfan am berfformiad cymharol eu hysgol ac nid ydyn nhw'n herio'r uwch reolwyr yn ddigon cadarn.

Mae tua dwy o bob tair ysgol wedi rhoi trefn dda ar waith i wella ansawdd ond mae diffygion yn un o bob tair ysgol. Ble mae diffygion, nid yw'r uwch reolwyr yn rhoi sylw i dystiolaeth uniongyrchol drwy arsylwi gwersi ac maen nhw'n canolbwyntio gormod ar ddarpariaethau a pholisïau yn hytrach na'r safonau mae'r disgyblion yn eu cyflawni. Yn aml, nid yw'r gwendidau dan sylw yn eu hadroddiadau hunanarfarnu'n cael sylw yng nghynllun gwella'r ysgol. Er enghraifft, er bod uwch reolwyr o bosib yn mynd ati'n ofalus i ddadansoddi data perfformiad, nid ydyn nhw'n defnyddio'r canfyddiadau i adnabod yr union agweddau sydd angen eu gwella. Mewn mwyafrif o'r ysgolion gwannach yma, nid ydyn nhw wedi rhoi sylw digon da i argymhellion adroddiadau arolygu blaenorol.

Yn yr ychydig iawn o'r ysgolion lle mae'r pwyslais ar wella'n rhagorol, yr effaith ar y disgyblion sy'n ganolog i'r broses hyfforddi a'r datblygu. Mae llawer o'r ysgolion yn gweithio mewn clystyrau ac ar lefel awdurdod lleol i godi safonau. Ond mae'r trefniadau i hyrwyddo arfer dda'n wan yn tua un o bob tair ysgol. Mae gormod o amrywio o hyd yn y safonau cyflwyno yn yr ysgolion, ac o ddosbarth i ddosbarth.

Mae gweithio mewn partneriaethau'n dda neu'n well ym mhob ysgol bron a gafodd ei harolygu eleni. Mae pob ysgol bron wedi creu perthynas gadarn gyda'r rhieni, y gofalwyr a'r gymuned leol, er bod eu rhan yn y dasg o wella dysgu'r disgyblion yn amrywio mwy. Fe welon ni fod y rhan fwyaf o'r ysgolion yn gweithio gyda dewis eang o asiantaethau i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed a'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn ychydig o'r ysgolion, mae'r math yma o bartneriaethau wedi helpu i wella cyfraddau presenoldeb.

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn defnyddio dewis da o adnoddau'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi rhoi trefniadau datblygu proffesiynol da ar waith, ac mae'r rhain yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Ond yn tua un o bob tair ysgol, mae'r cysylltiadau rhwng cynllun gwella'r ysgol, y trefniadau rheoli perfformiad a'r cyfleoedd datblygu proffesiynol yn wan. Un enghraifft o hyn yw'r ffaith nad yw'r hyfforddiant ysgol-gyfan yn yr ysgolion yma'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau a oedd dan sylw yng nghynlluniau gwella'r ysgol.

Ffigur 2.3: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Eleni, barnwyd bod bron i un o bob pum ysgol yn rhoi dim gwell na gwerth digonol am arian. Yn yr ysgolion yma:

- nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd;
- nid yw'r cyllid wedi'i gyfeirio at yr agweddau sydd angen eu gwella; neu
- nid yw'r penaethiaid a'r llywodraethwyr yn mynd ati'n ofalus i fonitro effaith gwariant ar y deilliannau.

Ar ddiwedd 2010-2011[1] roedd diffyg ariannol yn 8% o'r ysgolion cynradd, sef cyfanswm o dair miliwn o bunnoedd. Roedd gan 18% arall o'r ysgolion cynradd gronfeydd wrth gefn a oedd dros 10% o'u gwariant ysgol dirprwyedig, sef cyfanswm o 17 miliwn o bunnoedd.

> *"Ond yn tua un o bob tair ysgol, mae'r cysylltiadau rhwng cynllun gwella'r ysgol, y trefniadau rheoli perfformiad a'r cyfleoedd datblygu proffesiynol yn wan"*

[1] SDR 188/2011: Cronfeydd wrth gefn ysgolion yng Nghymru ar 31 Mawrth 2011 Llywodraeth Cymru, 25 Hydref 2011. http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/localgov2011/111025/?skip=1&lang=cy

Ysgolion uwchradd

Roedd 222 o ysgolion uwchradd yng Nghymru ym mis Ionawr 2011, sef un yn llai nag yn Ionawr 2010.
Roedd 201,230 o ddisgyblion yn yr ysgolion uwchradd ym mis Ionawr 2011, gostyngiad o 2,677 o Ionawr 2010.

Perfformiad a rhagolygon

Fe arolygon ni 31 o ysgolion uwchradd eleni. Mae perfformiad at ei gilydd yn dda neu'n well yn 65% o'r ysgolion uwchradd yma. Mae'n rhagorol at ei gilydd yn 13% o'r ysgolion uwchradd, yn ddigonol yn 32% ac yn anfoddhaol yn 3%.

Mae'r rhagolygon gwella'n dda neu'n well yn 84% o'r ysgolion uwchradd, ac yn rhagorol yn 23%. Digonol yw'r rhagolygon gwella yn 16% o'r ysgolion uwchradd.

Bydd angen i Estyn wneud ymweliadau dilynol â thua 23% o'r ysgolion uwchradd. Mae angen gwelliant sylweddol ar un o'r ysgolion yma, ac mae angen ymweliad monitro gan Estyn ar chwech arall. Y farn arolygu ar 19% arall o'r ysgolion oedd 'da' yn bennaf, ond mae un neu fwy o feysydd pwysig yno i'w gwella. Rydym wedi gofyn i'r awdurdodau am adroddiadau manwl ar y cynnydd y bydd y chwe ysgol yma'n ei wneud.

Dim ond digonol yw'r safonau a'r addysgu yn yr ysgolion mae angen gwelliant sylweddol arnyn nhw, neu ymweliad monitro gan Estyn. Yn yr ysgolion yma, mae'r perfformiad yn yr arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 yn is nag mewn ysgolion tebyg. Yn llawer o'r ysgolion yma:

- mae presenoldeb yn waeth nag mewn ysgolion tebyg;
- mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd arafach na'r disgwyl yn eu gwersi ac nid ydyn nhw'n datblygu digon ar eu medrau, yn enwedig eu medrau llythrennedd a'u medrau meddwl;
- mae bwlch mwy na'r disgwyl rhwng perfformiad bechgyn a pherfformiad merched;
- mae'r gwaith o gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer medrau'n wael yn aml;
- mae disgwyliadau lleiafrif o'r athrawon o'r disgyblion yn rhy isel; ac
- mae anghysondebau amlwg yn y gwaith asesu.

Mae'r rhagolygon gwella'n dda yn yr ysgolion sydd angen eu monitro gan yr awdurdod lleol, er nad yw'r safonau gystal ag y gallan nhw fod eto. Yn yr ysgolion yma, mae tuedd am i fyny yn y perfformiad.

Deilliannau

Mae safonau'n dda neu'n well ar y cyfan yn tua thair o bob pump o'r ysgolion uwchradd a gafodd eu harolygu. Maen nhw'n rhagorol yn tua un o bob wyth o'r ysgolion.

Yn yr ysgolion sydd â safonau rhagorol, mae canlyniadau'r disgyblion yn yr arholiadau allanol yn rhagorol o gymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg ac o'u mesur yn erbyn cyrhaeddiad y disgyblion ar adeg eu derbyn i'r ysgol. Yn yr ysgolion yma, mae'r bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched yn llai nag yn y rhan fwyaf o ysgolion. Hefyd, yn yr ysgolion yma, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd arbennig o dda yn eu gwersi ac yn datblygu a defnyddio'u medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol.

Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ar y cyfan o safbwynt datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Yn yr ysgolion lle mae'r safonau'n ddigonol neu'n anfoddhaol, mae'r perfformiad yn yr arholiadau allanol yn wan o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Mae diffygion ym medrau llythrennedd y disgyblion.

Mae'r disgyblion yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yn gwrando'n dda yn eu gwersi. Maen nhw'n ymateb yn dda, er bod eu hymatebion yn rhy fyr ac arwynebol yn tua un o bob deg ysgol. Gall llawer o'r disgyblion ddethol a dehongli gwybodaeth yn dda. Mae llawer o'r disgyblion hefyd yn ysgrifennu'n dda ar gyfer amryw o wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd, ac maen nhw'n defnyddio geirfa sy'n benodol i bwnc yn briodol.

Er hynny, yn tua chwarter yr ysgolion, nid yw'r safonau mewn ysgrifennu gystal ag yn yr agweddau eraill ar lythrennedd. Yn yr achosion yma, nid yw'r disgyblion yn datblygu digon ar eu medrau ysgrifennu estynedig, ac mae gormod o wendidau sillafu, atalnodi a gramadeg. Gwan hefyd yw'r medrau rhifedd yn tua un o bob pump o'r ysgolion a gafodd eu harolygu. Nid yw'r disgyblion yn defnyddio'r medrau maen nhw'n eu dysgu yn eu gwersi mathemateg yn eu pynciau eraill.

Mae'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn perfformio'n gymharol dda ar y cyfan. Yn tua un o bob chwe ysgol, nid yw'r disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd gystal ag y dylen nhw. Yn tua un o bob tair ysgol,

Gwella medrau llythrennedd disgyblion

Mabwysiadodd **Ysgol Gyfun Sandfields** ddull systematig ar draws yr ysgol gyfan i wella oedrannau darllen disgyblion cyfnod allweddol 3. Effeithiodd y gwaith yma'n sylweddol ar fedrau llythrennedd y disgyblion.

I weld mwy o wybodaeth am hyn, cyfeiriwch at yr ***astudiaeth achos***.

Ffigur 2.4: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



mae'r bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a pherfformiad y merched gryn dipyn yn fwy na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da neu well o ran datblygu eu medrau iaith Gymraeg yn llawer o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg, ond dim ond mewn lleiafrif o'r ysgolion cyfrwng Saesneg. Maen nhw'n gwneud cynnydd da iawn mewn Cymraeg ail iaith yn tua un o bob deg ysgol. Mewn mwyafrif o'r ysgolion cyfrwng Saesneg, nid yw'r safonau'n well na digonol ac nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o ddefnydd o'r medrau maen nhw wedi'u dysgu yn eu gwersi Cymraeg yn eu gwersi eraill. Yn tua chwarter yr ysgolion a gafodd eu harolygu, mae cyfran y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ar gyfer cymhwyster cydnabyddedig mewn Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 4 yn is o lawer na chyfartaledd Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, maen nhw'n deall sut mae bod yn iach ac yn cymryd rhan mewn dewis da o weithgareddau corfforol. Fe welon ni fod ymddygiad y disgyblion a'u hagwedd at ddysgu'n dda neu'n well yn llawer o'r ysgolion, ac yn dda iawn yn tua un o bob tair ysgol. Er hynny, yn ychydig dan un o bob pum ysgol mae rhai o'r disgyblion yn tarfu ar lefel isel.

Roedd rhywfaint o welliant yng nghyfraddau presenoldeb yr ysgolion uwchradd yn ystod 2010-2011, o gymharu â chyfraddau'r flwyddyn flaenorol. Mae bechgyn yn mynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd na merched. Mae'r cyfraddau presenoldeb yn dal yn is nag yn Lloegr. Yn 2009-2010, sef y flwyddyn fwyaf diweddar y mae data cymharol ar gael ar ei chyfer, roedd y cyfraddau presenoldeb yn Lloegr tua dau bwynt canran yn uwch nag yng Nghymru.

Yn llawer o'r ysgolion mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau bywyd a'u medrau cymdeithasol yn dda. Maen nhw'n barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ac yn cyfrannu at benderfyniadau ar y gwahanol agweddau ar fywyd yr ysgol mewn meysydd fel gwella'r amgylchedd, fel rhan o waith cyngor yr ysgol. Yn ychydig o'r ysgolion lle mae cyfraniad y disgyblion at fywyd a gwaith yr ysgol yn arbennig o gadarn, mae ganddyn nhw rôl bwysig yn y gweithgareddau hunanarfarnu ac yn y broses o ddatblygu cynlluniau gwella'r ysgol. Ond yn ychydig o'r ysgolion, nid yw'r disgyblion yn cael cyfrannu digon at y fath benderfyniadau.

Yn yr ychydig o ysgolion ble mae lles yn rhagorol, mae ymddygiad a phresenoldeb y disgyblion yn arbennig o dda ac maen nhw'n gweithio'n galed iawn. Nid yw lles yn well na digonol yn ychydig iawn o'r ysgolion, ac yno mae presenoldeb yn wael ac mae lleiafrif bach o'r disgyblion yn tarfu gormod.

Darpariaeth

Mae'r ddarpariaeth yn dda neu'n well ar y cyfan yn 87% o'r ysgolion a gafodd eu harolygu.

Mae profiadau dysgu'n dda neu'n well yn tua phedair o bob pum ysgol. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r ysgolion yn bodloni'r gofynion statudol ac mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n cynllunio'n ofalus i sicrhau dilyniant a pharhad i bynciau cyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion eisoes yn bodloni'r trefniadau cwricwlwm newydd dan sylw yn y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru). Maen nhw'n cynnig dewis da ac addas o opsiynau academaidd a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4.

Erbyn hyn mae'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 yn rhoi llawer mwy o sylw i fedrau. Mae ychydig o'r ysgolion wedi rhoi trefniadau arloesol ar waith sy'n creu cyswllt rhwng y pynciau gyda'r nod o ddatblygu medrau meddwl a medrau dysgu'r disgyblion yn well. Yn un o bob wyth o'r ysgolion, mae gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion, ac mae'r athrawon yn eu defnyddio'n gyson ar draws y cwricwlwm. Ond mewn lleiafrif o'r ysgolion, mae'r gwaith o gydlynu a monitro'r broses o ddatblygu medrau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm yn wan. Yn yr achosion yma, fe allai'r athrawon ddisgrifio'n fras y medrau a fydd dan sylw yn eu gwersi, ond nid oes strategaethau clir ganddyn nhw i atgyfnerthu'r medrau yma. Mewn ychydig o achosion, mae'r gwaith o gynllunio i ddatblygu medrau wedi'i gyfyngu i leiafrif o'r pynciau.

Yn y mwyafrif o'r ysgolion, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ymarfer ac atgyfnerthu eu medrau Cymraeg y tu allan i'r gwersi Cymraeg. Yn tua hanner yr ysgolion, mae'r addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda, er mai ychydig iawn o'r ysgolion sy'n cynnig darpariaeth ragorol sy'n rhan annatod o waith yr ysgol gyfan.

Mae'r addysgu'n dda neu'n well ar y cyfan yn tua dwy o bob tair ysgol. Yn yr ychydig o achosion lle mae'r addysgu'n rhagorol:

- mae dulliau addysgu cyson yn gyffredin ar draws yr ysgol;
- mae'r gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth yn herio ac yn cymell;
- mae disgwyliadau pob un o'r athrawon yn uchel iawn o ran yr hyn y gall y disgyblion ei gyflawni; ac
- mae pwyslais cadarn ar ddatblygu medrau meddwl y disgyblion drwy ofyn cwestiynau penagored, treiddgar a heriol.

Ffigur 2.5: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Mewn lleiafrif o'r ysgolion lle nad yw'r addysgu'n well na digonol, mae'r dulliau a'r technegau addysgu'n amrywio gormod. Nid yw'r athrawon yn herio'r disgyblion digon, nac yn gofalu bod y gwaith yn cyfateb i anghenion a galluoedd y disgyblion.

Mae'r systemau ar gyfer olrhain cynnydd y disgyblion yn dda ar y cyfan yn y rhan fwyaf o'r ysgolion. Yn yr ychydig o ysgolion lle mae'r marcio'n dda iawn, mae arferion pob adran yn gyson ac mae'r athrawon yn cynnig sylwadau defnyddiol sy'n helpu'r disgyblion i wella'u gwaith. Ond yn y mwyafrif o'r ysgolion, mae'r broses o farcio gwaith disgyblion yn rhy anghyson. Yn yr achosion ble mae'r marcio'n annigonol, nid yw'n helpu'r disgyblion i ddeall safon eu perfformiad na sut mae gwella'u gwaith. Ac nid oes unrhyw gamau dilynol i asesu a yw'r disgyblion wedi dysgu o'r sylwadau ar eu gwaith.

Mae'r gofal, y cymorth a'r arweiniad yn dda neu'n well ym mhob ysgol bron. Yn yr un o bob tair ysgol lle mae'r ddarpariaeth yn rhagorol ar y cyfan, mae'n effeithio'n gadarnhaol iawn ar ymddygiad a phresenoldeb y disgyblion. Ym mhob un o'r ysgolion, mae cryfderau yn y cymorth i'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn gwneud defnydd da o'r gwasanaethau arbenigol fel yr heddlu, y gwasanaethau iechyd, seicolegol a chynghori, a'r gwasanaethau cymdeithasol i gynorthwyo'r disgyblion sy'n fwy agored i niwed. Mae pob ysgol wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol ar waith. Mae'r wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael i'r disgyblion yn gynhwysfawr ar y cyfan, er nad yw ychydig o'r ysgolion yn cynnig cyngor digon diduedd iddyn nhw wrth iddyn nhw ddewis y pynciau gorau ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Ym mhob ysgol bron, rhai o'r prif gryfderau oedd yr ethos cynhwysol a'r trefniadau i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i adnabod a pharchu amrywiaeth. Mae'r adnoddau dysgu'n briodol ar y cyfan ac yn diwallu anghenion y disgyblion a gofynion y cwricwlwm. Dim ond yn un o bob chwe ysgol yr oedd y disgyblion yn gallu defnyddio nifer digonol o gyfrifiaduron diweddar yn ddigon rheolaidd.

Mae diffygion yn ansawdd yr adeiladau yn tua hanner yr ysgolion. Yng ngwneuthuriad yr adeiladau y mae'r diffygion pennaf, ac maen nhw'n aml yn waeth yn y mannau ar gyfer addysg gorfforol a gwyddoniaeth, ac ym mannau astudio'r chweched dosbarth. Mae pob un o'r ysgolion bron yn defnyddio'u hadeiladau'n dda.

> *"Yn yr ychydig o ysgolion lle mae'r marcio'n dda iawn, mae arferion pob adran yn gyson ac mae'r athrawon yn cynnig sylwadau defnyddiol sy'n helpu'r disgyblion i wella'u gwaith."*

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well ar y cyfan yn dros bedair o bob pum ysgol. Yn un o bob chwe ysgol mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol. Mae gan yr ysgolion yma:

- weledigaeth strategol glir sy'n rhoi pwyslais cadarn ar ddeilliannau;
- blaenoriaethau y mae pawb yn eu deall ac sydd wedi'u seilio ar ddadansoddi tystiolaeth uniongyrchol a data perfformiad yn realistig;
- diwylliant o weithio ar y cyd, ymddiriedaeth ac atebolrwydd; a
- disgwyliadau uchel ym mhob maes gwaith.

Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion mae'r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau. Ac mae'r arweinwyr yn gweithredu'n uniongyrchol i wella safonau, lles a'r ddarpariaeth. Yn yr ychydig o ysgolion ble mai digonol yn unig yw'r arweinyddiaeth, nid yw'r uwch reolwyr a'r rheolwyr canol yn rhoi digon o sylw i safonau ac addysgu. Yn yr ysgolion yma, nid yw pob aelod o'r staff yn deall ei rôl yn ddigon da ac nid yw'r rheolwyr yn mynd i'r afael yn gadarn â thanberfformio.

Mae'r llywodraethwyr yn gosod cyfeiriad strategol ac yn cynnig cymorth addas yn y rhan fwyaf o'r ysgolion, ac maen nhw'n herio'n effeithiol yn tua hanner yr ysgolion. Ond yn chwarter yr ysgolion, nid yw'r llywodraethwyr yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad yn dda er mwyn gwneud yr ysgol yn atebol.

Fe welon ni fod llawer o'r ysgolion yn mynd ati mewn ffordd systematig i hunanarfarnu ac i gynllunio'r broses o wella. Mae targedau heriol yn y mwyafrif o'r cynlluniau gwella ysgolion, ac maen nhw'n enwi'r deilliannau a fwriadwyd. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn datblygu grwpiau datblygu proffesiynol yn yr ysgolion ac yn gweithio gyda chlystyrau o ysgolion i godi safonau.

Yn yr ysgolion lle mae'r trefniadau sicrhau ansawdd yn rhagorol, fe welon ni welliant sylweddol yn y safonau a'r ddarpariaeth. Yn yr ysgolion yma, mae hunanarfarnu'r adrannau a'r cynllunio ar gyfer gwella'n gyson iawn â'i gilydd, ac maen nhw'n cynnwys y disgyblion. Dim ond digonol yw'r cynllunio ar gyfer gwella yn bron i un o bob pum ysgol, ac yn yr ysgolion yma:

- nid yw'r rheolwyr yn arsylwi'r gwersi'n ddigon aml;
- nid yw lleiafrif o'r adrannau'n dadansoddi data'n drylwyr;
- nid yw'r hunanarfarnu'n adnabod yn glir y meysydd i'w datblygu; ac
- nid yw'r cynlluniau gwella'n rhoi digon o sylw i'r diffygion nac yn gosod targedau heriol.

Ffigur 2.6: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



> *"Mae'r tua un o bob pum ysgol sydd â diffyg ariannol yn ei chyllideb yn dechrau rheoli'r diffyg. Er hynny, ychydig iawn o'r ysgolion a gafodd eu harolygu sydd â gwarged sy'n fwy na'r swm y bydd yr ysgol ei angen."*

Mae un o bob deg o'r ysgolion wedi creu gweledigaeth glir iawn o'u rôl wrth weithio gyda'u partneriaid. Mae eu gwaith mewn partneriaethau'n arwain at wella safonau a lles, yn enwedig rhai'r dysgwyr sy'n fwy agored i niwed. Mae'n golygu hefyd bod mwy o'r disgyblion yn aros mewn addysg amser llawn a hyfforddiant. Mae pob ysgol uwchradd bron yn gweithio'n dda neu'n well gydag ysgolion cynradd. Yn dros chwarter yr achosion, mae'r partneriaethau yma'n arbennig o dda ac maen nhw'n sicrhau parhad yn nysgu'r disgyblion sy'n trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae pob ysgol bron yn gweithio'n dda neu'n well gyda'r ysgolion uwchradd partner a'r colegau er mwyn cynnig dewis da o'r cyrsiau mae dysgwyr 14 i 19 oed yn eu disgwyl. Yn ychydig dros un o bob tair ysgol, mae cynllunio gofalus yn hwyluso'r broses o grynhoi adnoddau, rhannu cwricwlwm cyffredin a gwneud trefniadau sicrhau ansawdd effeithiol. Ond yn tua un o bob chwe ysgol sydd â chweched dosbarth, nid yw'r ddarpariaeth ôl-16 yn rhoi gwerth da am arian am fod gormod o ddosbarthiadau bach i'w gwneud yn ymarferol. At ei gilydd, prin yw'r partneriaethau gyda darparwyr dysgu yn y gwaith. Yn rhyw chwarter yr ysgolion sy'n gweithio'n dda mewn partneriaethau fel arall, nid yw'r drefn ar gyfer arfarnu effaith gwaith partneriaethau'n ddigon trylwyr neu effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn rheoli materion ariannol yn dda. Erbyn hyn mae trefniadau manwl ar waith i gynllunio a monitro'r gyllideb. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn dyrannu adnoddau'n briodol i'r blaenoriaethau maen nhw wedi'u pennu. Mae'r tua un o bob pum ysgol sydd â diffyg ariannol yn ei chyllideb yn dechrau rheoli'r diffyg.

Er hynny, ychydig iawn o'r ysgolion a gafodd eu harolygu sydd â gwarged sy'n fwy na'r swm y bydd yr ysgol ei angen.

Ar ddiwedd 2010-2011[2], roedd diffyg ariannol o ddeg miliwn o bunnoedd yn 25% o'r ysgolion uwchradd. Roedd gan 5% arall o'r ysgolion uwchradd gronfeydd wrth gefn a oedd dros 10% o'u gwariant ysgol dirprwyedig, sef cyfanswm o bedair miliwn o bunnoedd.

[2] SDR 188/2011: Cronfeydd wrth gefn ysgolion yng Nghymru ar 31 Mawrth 2011 Llywodraeth Cymru, 25 Hydref 2011. http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/localgov2011/111025/?skip=1&lang=cy

Ysgolion arbennig a gynhelir

Mae ysgol arbennig yn darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig oherwydd amrywiaeth o anableddau dysgu neu anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad. Awdurdodau lleol sy'n ariannu ysgolion arbennig a gynhelir.

Ym mis Ionawr 2011, roedd 43 o ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru. Roedd 4,181 o ddisgyblion yn cael eu haddysgu yn yr ysgolion arbennig yn Ionawr 2011, sef cynnydd o 4,117 yn Ionawr 2010.

Perfformiad a rhagolygon

Eleni, fe arolygon ni wyth o ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru. Mae perfformiad yn dda ar y cyfan ym mhump o'r wyth ysgol y gwnaethon ni eu harolygu. Mae perfformiad dwy o'r ysgolion arbennig yn rhagorol, a pherfformiad un ysgol arbennig yn ddigonol.

Mae'r rhagolygon gwella'n rhagorol yn chwech o'r ysgolion arbennig, ac yn dda yn un arall. Digonol yw'r rhagolygon gwella yn un arall eto. Mae angen monitro gan Estyn ar un o'r wyth o ysgolion a gafodd eu harolygu eleni am mai dim ond digonol yw llawer o agweddau ar ei gwaith.

Deilliannau

Mae'r safonau'n dda neu'n well ar y cyfan yn saith o'r wyth o ysgolion a gafodd eu harolygu. Yn yr ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion â'r anableddau dysgu mwyaf cymhleth, mae'r disgyblion yn cyflawni safonau da neu well ac maen nhw'n gwneud cynnydd da ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Mae bron yr holl ddisgyblion yn yr ysgolion yma'n cyflawni'r targedau dysgu sydd yn eu cynlluniau addysg unigol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwella'u medrau cyfathrebu. Ar ben hynny mae bron pob un o'r disgyblion yma'n cyflawni safonau da mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, Cymraeg a rhifedd, ac yn ennill cymwysterau ar lefel briodol.

Yn un o'r ysgolion ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd digonol ac yn datblygu eu medrau o fan cychwyn sydd yn aml yn isel iawn. Er hynny, nid yw lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yr ysgol yma'n dysgu gwrando'n dda ac nid ydyn nhw'n cyflawni'n ddigon da ym mhob un o bynciau'r cwricwlwm.

Mae lles y disgyblion yn dda o leiaf ym mhob un o'r ysgolion a gafodd eu harolygu. Yn hanner yr ysgolion mae lles yn rhagorol. Mae'r holl ddisgyblion bron, gan gynnwys y rheini ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad, yn mynychu'n rheolaidd oni bai eu bod yn absennol am gyfnodau oherwydd cyflyrau meddygol. Mae pob disgybl bron yn ymddwyn yn dda ac yn cyfrannu'n frwdfrydig at ei ddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfrannu'n weithredol at fywyd yr ysgol drwy gyfrannu at waith cynghorau ysgol a gweithgareddau'r ysgol o ddydd i ddydd. Mae cymryd rhan fel hyn yn codi hyder y disgyblion ac yn eu gwneud yn fwy annibynnol. Maen nhw'n gwneud cynnydd da drwy ddysgu llawer am ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae'r holl ddisgyblion bron yn gweld gwerth ymarfer corff a bwyta'n iach.

Gwella medrau cyfathrebu disgyblion

Llwyddodd **Ysgol Tŷ Coch** i addasu rhaglen Llywodraeth Cymru ar fedrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu er mwyn gwella medrau cyfathrebu disgyblion ag anawsterau dysgu ac anawsterau corfforol difrifol, a disgyblion ag awtistiaeth.

I weld mwy o wybodaeth am hyn, cyfeiriwch at yr astudiaeth achos 'Ffocws cadarn ar anghenion dysgu disgyblion'.

Ffigur 2.7: Nifer yr ysgolion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth

Mae'r ddarpariaeth yn dda ar y cyfan yn saith o'r wyth ysgol a gafodd ei harolygu.

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion a gafodd eu harolygu'n cynnig dewis da o brofiadau dysgu i'w disgyblion ar ffurf cwricwlwm eang a chytbwys. Mae pob ysgol bron wedi gwneud cynnydd da yn y gwaith o roi'r Llwybrau Dysgu 14-19 ar waith. Bydd disgyblion 14-19 oed yn dewis o lawer o wahanol gyrsiau, gan gynnwys dewis da o gyrsiau galwedigaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn cydweithredu'n dda â darparwyr eraill i ddiwallu anghenion pob disgybl yn effeithiol.

Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion mae'r addysgu'n dda o leiaf, ac yn rhagorol mewn dwy o'r ysgolion. Mae'r athrawon yn deall anghenion unigol y disgyblion ac yn defnyddio deilliannau asesu'n ofalus i gynllunio gwaith sy'n cyfateb yn dda iawn i alluoedd a diddordebau'r disgyblion.

Ond yn yr un ysgol lle mae diffygion yn yr addysgu, mae disgwyliadau'r athrawon yn rhy isel o'r hyn y gallai'r disgyblion ei gyflawni. Yn yr ysgol yma, mae'r disgyblion yn colli diddordeb yn y tasgau ac nid ydyn nhw'n cyflawni gystal ag y dylen nhw. Nid yw'r gweithdrefnau asesu'n cael eu defnyddio'n dda i fod yn sail i adolygiadau blynyddol ac i gynlluniau addysg unigol. Nid ydyn nhw chwaith yn arwain at gamau pendant sy'n helpu'r disgyblion i symud yn eu blaenau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer lles y disgyblion yn dda neu'n well ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd. Mewn mwyafrif o'r ysgolion mae'r ddarpariaeth yn rhagorol. Fe welon ni fod yr ysgolion wedi creu strategaethau da i sicrhau bod y disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi mewn amgylchedd ysgogol sydd wedi'i drefnu'n dda. Mae'r staff yn cynnig gofal, cymorth ac arweiniad da i'r disgyblion, ac mae'r rhain yn eu helpu i wella'u hymddygiad ac i oresgyn yr anawsterau sy'n atal eu dysgu.

Ffigur 2.8: Nifer yr ysgolion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda neu'n well yn saith o'r wyth ysgol a arolygwyd eleni. Mae arweinyddiaeth tair o'r ysgolion yn rhagorol. Yn yr ysgolion yma, mae'r arweinwyr a'r llywodraethwyr yn defnyddio data'n dda i fesur cynnydd y disgyblion. Mae'r cynlluniau gwella'n rhoi sylw da i'r blaenoriaethau. Mae'r rheolwyr yn gosod cyfeiriad clir ac yn gwneud yn siŵr bod pawb yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Ac maen nhw'n gwirio'n gyson fod ansawdd yr addysgu'n dda.

Yn yr ychydig o ysgolion ble gwelon ni ddiffygion yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, nid yw'r rheolwyr a'r staff yn arfarnu gwaith yr ysgol yn drylwyr. Nid yw'r hunanarfarnu'n canolbwyntio ar ansawdd y dysgu nac ar y safonau mae'r disgyblion yn eu cyflawni. Nid yw'r llywodraethwyr yn herio'r ysgol yn ddigon cadarn ac nid yw'r arweinwyr yn gofyn am farn yr holl randdeiliaid.

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi datblygu partneriaethau cadarn gyda darparwyr eraill. Maen nhw'n rhannu medrau eu staff ag ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig eraill. Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau mewn lleoliadau fel ysgolion, colegau a'r gymuned leol. Mae hyn yn eu helpu i gael dewis mwy amrywiol o brofiadau dysgu ac i ddysgu am fyd gwaith.

Mae arweinwyr y rhan fwyaf o'r ysgolion yn defnyddio adnoddau'n dda, ac mae'r staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddiwallu anghenion dysgu'r disgyblion. Mae'r rheolwyr yn gofalu bod y staff yn cael eu hyfforddi ar yr arferion diweddaraf ym maes addysgu, asesu a chynorthwyo disgyblion ag anghenion cymhleth iawn. Yn ychydig o'r ysgolion nid yw'r rheolwyr yn defnyddio adnoddau'n ddigon da, ac nid ydyn nhw'n ymwybodol o anghenion hyfforddi eu staff.

Ffigur 2.9: Nifer yr ysgolion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Ysgolion arbennig annibynnol

Yn Ionawr 2011, roedd 32 o ysgolion arbennig annibynnol wedi'u cofrestru yng Nghymru. Maen nhw'n addysgu cyfanswm o tua 500 o ddisgyblion. Mae llawer o'r ysgolion yn rhai bach iawn sy'n addysgu llai na 15 o ddisgyblion.

Mae Estyn yn cynnal arolygiadau monitro blynyddol o'r holl ysgolion arbennig annibynnol am fod y disgyblion yn yr ysgolion yma'n agored iawn i niwed.

Yn ystod 2010-2011, agorodd pedair o ysgolion arbennig annibynnol cofrestredig bach, ac fe gaeodd dwy ysgol arall. Mae pob un o'r ysgolion yma'n darparu addysg i ddisgyblion sydd mewn cartrefi plant cysylltiedig.

Perfformiad a rhagolygon

Eleni, fe arolygon ni ddwy ysgol arbennig annibynnol. Mae perfformiad un o'r ysgolion yn ddigonol ar y cyfan, ond yn anfoddhaol yn y llall.

Digonol yw rhagolygon gwella un o'r ysgolion, ac maen nhw'n anfoddhaol yn y llall.

Ym mhob arolygiad o ysgolion arbennig annibynnol, mae'r tîm arolygu'n asesu i ba raddau mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Eleni, methodd un ysgol arbennig annibynnol â bodloni ychydig iawn o'r rheoliadau o ran addasrwydd y safle a'r adeiladau. Methodd yr ysgol arall â chydymffurfio â nifer sylweddol o'r rheoliadau, gan gynnwys y rhai sy'n delio ag ansawdd addysg.

Nid oedd dwy ysgol arbennig annibynnol arall yr ymwelon ni â nhw fel rhan o'n trefniadau monitro blynyddol, wedi rhoi digon o sylw i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar ddiogelu, nac ar adnabod y peryglon wrth gynllunio ymweliadau addysgol.

Byddwn ni'n ymweld eto â'r ysgolion hynny a fethodd â bodloni pob un o'r rheoliadau yma er mwyn gwneud yn siŵr eu bod wedi gwneud y gwelliannau sy'n angenrheidiol i gynnal eu cofrestriad.

Deilliannau

Mae'r safonau'n anfoddhaol yn un o'r ddwy ysgol yr arolygon ni eleni, ac yn ddigonol yn y llall. Yn yr ysgolion yma, nid yw'r disgyblion yn cyflawni gystal ag y gallan nhw. Nid ydyn nhw'n gwneud cynnydd cyson ac ychydig o gymwysterau maen nhw'n eu hennill, os ydyn nhw'n ennill unrhyw gymwysterau o gwbl. Yn un o'r ysgolion yma, nid yw'r disgyblion llai galluog yn gwella digon ar eu medrau sylfaenol, ac mae eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n wael.

Mewn lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelon ni â nhw fel rhan o'n rhaglen fonitro flynyddol, mae'r disgyblion yn llawn cymhelliant ac yn ennill cymwysterau priodol mewn amryw o wahanol bynciau. Mae disgyblion yr ysgolion yma'n gwneud cynnydd da wrth ddarllen ac ysgrifennu. Yn ychydig o'r ysgolion, mae'r disgyblion yn datblygu medrau gwerthfawr sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer byw'n annibynnol. Er bod y disgyblion yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yn gwneud cynnydd sy'n cyfateb i'w galluoedd, mae ansawdd eu gwaith yn amrywio. Y ffaith nad yw'r cymhelliant ganddyn nhw i gwblhau eu tasgau sy'n gyfrifol am hyn yn aml.

Mae presenoldeb yn dda yn rhai o'r ysgolion arbennig annibynnol, ac mae'r disgyblion yn cyrraedd eu gwersi'n brydlon ac yn ymddwyn yn dda. Ond yn rhai o'r ysgolion eraill, nid yw'r disgyblion yn cymryd digon o ran ac maen nhw naill ai'n camymddwyn yn y gwersi neu'n gwrthod mynd iddyn nhw.

Ym mhob un o'r ysgolion bron, roedd y disgyblion yn ymateb yn dda ac roedd cael cyfleoedd i awgrymu ffyrdd o wella'u hysgol yn hwb i'w hyder.

Ffigur 2.10: Nifer yr ysgolion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth

Mae'r ddarpariaeth yn ddigonol yn un o'r ysgolion arbennig annibynnol a gafodd eu harolygu eleni, ac mae'n anfoddhaol yn y llall.

Mae mwyafrif o'r ysgolion arbennig annibynnol yr ymwelon ni â nhw fel rhan o'n rhaglen fonitro flynyddol yn cynnig cwricwlwm eang. Maen nhw'n gwella'n raddol y cyfleoedd i ddisgyblion ennill dewis da o gymwysterau addas. Nid oes yr un o'r ddwy ysgol a gafodd eu harolygu eleni'n darparu cwricwlwm priodol i'w disgyblion. Yn un o'r ysgolion, mae'r ddarpariaeth yn anfoddhaol am fod y disgyblion yn treulio tua chwe awr yn unig gydag athro bob wythnos. Nid yw hyn yn ddigon i'r disgyblion wneud cynnydd da a gwella'u medrau. Nid yw'r ysgolion yma'n cynnig cyfleoedd i'r disgyblion nac yn eu cynorthwyo i ennill cymwysterau, er enghraifft, ar lefel TGAU.

Nid yw'r addysgu yn yr ysgolion yr arolygon ni'n well na digonol. Mae'r asesu'n wan ac mae targedau'r disgyblion yn rhy gyffredinol i fod o unrhyw fudd. Nid yw'r athrawon yn yr ysgolion yma'n:

- adnabod anghenion dysgu unigol y disgyblion yn ddigon manwl;
- yn herio'r disgyblion yn ddigonol;
- yn cynllunio'n ofalus i ddatblygu medrau'r disgyblion mewn cyd-destunau diddorol, yn enwedig eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu; nac
- yn defnyddio dewis digon eang o strategaethau i gynorthwyo'r disgyblion i ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae un ysgol yn cynnig amgylchedd cadarn, cynhwysol a gofalgar sy'n annog ei disgyblion i ymddwyn yn dda. Mae'n gwneud yn siŵr bod ei disgyblion yn cael yr adnoddau priodol a'r cymorth sy'n angenrheidiol. Nid yw staff yr ysgol arall yn defnyddio strategaethau priodol i herio ymddygiad gwael y disgyblion. Mae'r adnoddau'n anfoddhaol yn yr ysgol yma ac, yn benodol, nid yw'r disgyblion yn cael digon o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Ffigur 2.11: Nifer yr ysgolion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r arweinyddiaeth yn ddigonol yn un o'r ysgolion yr arolygon ni, ac mae'n anfoddhaol yn y llall. Nid yw arweinwyr a rheolwyr y naill ysgol a'r llall yn monitro'r addysgu a'r dysgu'n ddigon da, ac nid oes digon o bwyslais ar wella safonau.

Er bod arweinwyr a rheolwyr un o'r ysgolion yn cynnig rhywfaint o farn realistig ar y safonau a'r ddarpariaeth, nid ydyn nhw'n mynd ati'n drwyadl i bennu'r meysydd i'w gwella. Darlun cyffredinol gwan o'r ddarpariaeth sydd gan reolwyr yr ysgol arall. Nid ydyn nhw wedi rhoi strategaeth glir ar waith i adnabod cryfderau neu wendidau'r ysgol, ac mae'r cynllunio ar gyfer gwella'n wael. Nid yw'r ysgol yma'n cynnig gwerth am arian.

Mae gan y ddwy ysgol gysylltiadau â'r colegau a'r gwasanaeth gyrfaoedd yn yr ardal, ac mae rhai o'r disgyblion unigol yn manteisio arnyn nhw. Ond ar y cyfan nid yw'r cysylltiadau yma wedi cael eu datblygu'n dda. Nid yw'r trefniadau partneriaethau'n cynnig fawr ddim cyfleoedd i'r disgyblion gael profiad gwaith.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn y ddwy ysgol yn wan. Nid yw'r naill na'r llall yn gwybod sut y dylai'r staff weithredu er mwyn gwella'u gwaith. Prin iawn yw'r cyfleoedd datblygu proffesiynol a'r trefniadau i hybu'r arferion gorau.

Ffigur 2.12: Nifer yr ysgolion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Ysgolion annibynnol

Roedd 34 o ysgolion prif ffrwd annibynnol yng Nghymru yn Ionawr 2011.

Perfformiad a rhagolygon

Eleni, fe arolygon ni chwech o ysgolion prif ffrwd annibynnol. Yn eu plith roedd un ysgol uwchradd, tair ysgol gynradd a dwy ysgol bob-oed. Mae perfformiad un o'r ysgolion annibynnol yn rhagorol ar y cyfan, a pherfformiad tair arall yn dda. Digonol ar y cyfan yw perfformiad dwy o'r ysgolion annibynnol.

Mae'r rhagolygon gwella'n rhagorol mewn dwy o'r ysgolion annibynnol ac yn dda mewn un arall. Digonol yw'r rhagolygon mewn tair o'r ysgolion annibynnol.

Ymhlith y pedair ysgol y barnwyd eu bod yn dda neu'n well ar y cyfan, roedd ysgolion â diffygion yn un neu fwy o'u dangosyddion ansawdd.

Ym mhob arolygiad o ysgolion annibynnol, mae'r tîm arolygu'n asesu i ba raddau mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Eleni, llwyddodd tair o'r chwe ysgol annibynnol i fodloni pob un o'r rheoliadau. Ble'r oedd ysgolion yn methu bodloni ychydig iawn o'r rheoliadau, nid oedden nhw fel arfer yn cydymffurfio â'r rheoliadau ar addasrwydd y safle a'r adeiladau. Byddwn ni'n ymweld eto â'r ysgolion hynny a fethodd â bodloni pob un o'r rheoliadau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod wedi gwneud y gwelliannau sy'n angenrheidiol i gynnal eu cofrestriad.

Deilliannau

Mae'r safonau'n dda neu'n well ym mhedair o'r chwe ysgol a gafodd eu harolygu. Mae disgyblion pob un o'r ysgolion yn gwneud cynnydd da ar y cyfan yn eu hastudiaethau ym mhob rhan o'r cwricwlwm, ac wrth ddysgu medrau newydd. Yn tua hanner yr ysgolion, mae'r disgyblion yn cael gwybodaeth drwyadl am y testunau maen nhw'n eu hastudio, ac yn dod i'w deall yn dda. Maen nhw'n cael eu paratoi'n dda ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Yn un o'r ysgolion, mae'r disgyblion yn defnyddio'u medrau'n dda iawn mewn cyd-destunau newydd, ac yn defnyddio dysgu blaenorol yn effeithiol i wneud cysylltiadau ystyriol â thestunau eraill.

Mae disgyblion pob un o'r ysgolion yn cyfleu eu syniadau a'u barn yn glir gan ddefnyddio geirfa dda ac amrywiol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen yn gywir ac yn rhugl, ac maen nhw'n deall y cynnwys yn dda. Mae safonau'r gwaith ysgrifennu'n amrywio mwy. Yn yr ysgol lle mae'r safonau'n rhagorol, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio dulliau mwy a mwy soffistigedig i ysgrifennu gan ddisgrifio neu ddadansoddi rhywbeth, neu i ddadlau o blaid achos penodol. Mae disgyblion llawer o'r ysgolion yn defnyddio geirfa sy'n llawn dychymyg i ddisgrifio'u teimladau a'u hymateb. Nid yw gwaith ysgrifennu'r disgyblion yn rhai o'r ysgolion bob amser yn gyson ag ansawdd uchel eu medrau siarad a darllen. Nid yw'r disgyblion yma'n mynd ati'n ddigon da i ddatblygu eu gallu i ysgrifennu darnau hir ac i ddefnyddio gwahanol fformatau i wahanol bwrpasau.

Mae disgyblion pump o'r ysgolion yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu eu medrau rhifedd. Mae disgyblion tair o'r ysgolion yn cymhwyso'r medrau yma'n dda mewn cyd-destunau eraill.

Mae lles disgyblion yn dda neu'n well ym mhob un o'r ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mynychu'n rheolaidd, maen nhw'n llawn cymhelliant ac yn canolbwyntio'n dda. Mae llawer o'r disgyblion yn aeddfed ac yn llawn hyder. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ar y cyfan o ran eu medrau personol, cymdeithasol a dysgu. Nid yw disgyblion lleiafrif o'r ysgolion yn datblygu digon ar eu medrau datrys problemau na'u gallu i ddysgu'n annibynnol.

Ffigur 2.13: Nifer yr ysgolion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth

Mae darpariaeth dwy o'r ysgolion a gafodd eu harolygu eleni'n dda neu'n well ar y cyfan. Yn y pedair ysgol arall, digonol yw'r ddarpariaeth. Roedd diffygion i'w gweld ym mhrofiadau dysgu'r disgyblion neu yn yr addysgu yn yr ysgolion yma.

Mae'r profiadau dysgu'n dda mewn dwy o'r chwe ysgol. Mae ysgolion annibynnol yn cynnig cyfleoedd da ar y cyfan ac yn helpu eu disgyblion o bob gallu i ennill cymwysterau perthnasol ac i symud ymlaen i gyfnod nesaf eu haddysg neu i swydd. Mae gweithgareddau allgyrsiol tair o'r ysgolion yn cyfrannu'n arbennig o dda at y broses o ehangu ac atgyfnerthu profiadau'r disgyblion. Ond nid yw tair o'r ysgolion yn cynnig digon o gyfleoedd i'w disgyblion ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i hybu eu dysgu. Nid yw'r gwaith mewn dwy o'r ysgolion bob amser yn cyfateb yn ddigon da i anghenion dysgu'r disgyblion.

Mae'r addysgu'n dda yn hanner yr ysgolion a gafodd eu harolygu. Dyma'r nodweddion mwyaf cyffredin yn yr ysgolion yma:

- mae'r athrawon a'r disgyblion yn parchu ei gilydd yn dda;
- mae gwybodaeth yr athrawon am eu pynciau'n arbennig o dda; ac
- mae disgwyliadau'r athrawon yn uchel ac maen nhw'n cymell ac yn herio pob disgybl.

Y prif resymau sy'n arwain at ddiffygion yn addysgu rhai o'r ysgolion yw:

- nid yw'r gweithgareddau dysgu'n herio digon ar ddisgyblion o bob gallu;
- mae arafwch rhai o'r gwersi'n cyfyngu ar gynnydd y disgyblion; ac
- ychydig o gyfleoedd sydd i'r disgyblion ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol a'u medrau gwneud penderfyniadau.

Mae trefniadau gofal a chymorth effeithiol i'w gweld yn llawer o'r ysgolion. Maen nhw'n mynd ati'n dda i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Roedd trefniadau diogelu'n anfoddhaol yn un o'r ysgolion.

Ffigur 2.14: Nifer yr ysgolion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth tair o'r ysgolion o leiaf yn dda ar y cyfan. Digonol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn y tair ysgol arall.

Mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well yn hanner yr ysgolion yr arolygon ni. Mewn dwy ysgol lle mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol ac wedi arwain at safonau uchel a safonau sy'n gwella, mae'r arweinwyr:

- yn hyrwyddo ethos a gwerthoedd sy'n dylanwadu ar holl feysydd bywyd yr ysgol;
- yn gosod cyfeiriad cadarn i bob agwedd ar waith yr ysgol; ac
- yn cyfleu disgwyliadau uchel a herio'r staff yn gadarn a chynnig llawer o gymorth i bob un.

Y rhesymau pennaf dros unrhyw ddiffygion yn yr arweinyddiaeth yw:

- nid yw rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir; ac
- nid yw'r trefniadau rheoli perfformiad yn ddigon trylwyr.

Mewn mwyafrif o'r achosion, mae'r perchnogion yn goruchwylio gwaith yr ysgol yn effeithiol, maen nhw'n gwybod llawer am berfformiad yr ysgol ac yn herio a gosod cyfeiriad clir. Mae'r hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwella'n dda yn hanner yr ysgolion a gafodd eu harolygu. Mae dwy ysgol yn gwneud dadansoddiadau cynhwysfawr a chadarn o ddata perfformiad, ac adolygiadau trylwyr o bob agwedd ar eu gwaith. Mae'r arweinwyr yn defnyddio canfyddiadau'r adolygiadau yma i bennu blaenoriaethau gwella clir ac yn dyrannu'r adnoddau sy'n angenrheidiol i'w gwireddu.

Mewn tair o'r ysgolion, nid yw'r adolygiadau hunanarfarnu'n adnabod yn ddigon cywir y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Diffyg tystiolaeth gadarn am ansawdd yr addysgu a'r dysgu'n sy'n gyfrifol am hyn yn bennaf. Dim ond ychydig iawn o gynnydd mae dwy ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad diwethaf o ran mynd ati i wella darpariaeth a chodi safonau.

Mae llawer o'r ysgolion wedi sefydlu partneriaethau effeithiol gyda chyrff fel busnesau a mudiadau chwaraeon a diwylliannol yn yr ardal. Mae'r rhain yn effeithio'n gadarnhaol ar ddeilliannau a lles disgyblion.

Mae perchnogion a phenaethiaid llawer o'r ysgolion yn rheoli'r gyllideb yn ddoeth ac yn defnyddio'u hadnoddau'n effeithlon. Mae'r arweinwyr yn gofalu bod cyllid yn cael ei ddyrannu'n briodol i flaenoriaethau sydd wedi'u disgrifio'n glir er mwyn gwella darpariaeth a chodi safonau. Mae mwyafrif o'r ysgolion wedi rhoi trefniadau datblygu proffesiynol da ar waith sy'n gyson â blaenoriaethau'r ysgol gyfan a'r adrannau.

Ffigur 2.15: Nifer yr ysgolion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Colegau arbenigol annibynnol

Mae colegau arbenigol annibynnol yn darparu addysg a hyfforddiant i ddysgwyr 18-25 oed sydd ag anawsterau dysgu ac anableddau. Mae tri choleg arbenigol annibynnol yng Nghymru ac mae Estyn yn monitro pob un yn flynyddol. Mae'r adroddiad isod wedi'i seilio ar yr ymweliadau monitro yma gan na wnaethpwyd arolygiad ffurfiol o unrhyw un o'r colegau arbenigol yn ystod 2010-2011.

Deilliannau

Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn mwynhau bywyd yn y coleg. Maen nhw'n dysgu bod yn fwy annibynnol ac yn gwneud cynnydd da, gan ennill dewis da o gymwysterau defnyddiol a phriodol fel dyfarniadau ASDAN ac Agored Cymru. Mae dysgwyr ag anghenion cymhleth yn datblygu eu medrau cyfathrebu er mwyn gallu mynegi eu hunain yn fwy effeithiol a dylanwadu mwy ar eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r dysgwyr mwy galluog yn gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd dros amser.

Mae llawer o'r dysgwyr yn elwa ar gael cyfleoedd addas i ddysgu am fyd gwaith. Mae'r dysgwyr yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn penderfyniadau am fywyd y coleg. Yn un coleg, mae'r dysgwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o recriwtio staff ac maen nhw'n cynnig sylwadau ar bolisïau newydd.

Mae'r holl ddysgwyr yn elwa ar gael cyngor defnyddiol ynglŷn â ffurfio perthynas gyda phobl. Mae'r cyngor yn cynnwys addysg rhyw a chanllawiau ynglŷn â'u cadw eu hunain yn ddiogel. Maen nhw'n dod i ddeall yn well sut mae ymddwyn yn y gymuned. Mae'r dysgwyr sy'n cael trafferth rheoli eu hymddygiad yn dysgu technegau hunan-reoli sy'n eu tawelu, ac mae llai o achosion o ymddwyn yn wael. Mae ychydig o'r dysgwyr yn cyrraedd y sesiynau'n hwyr, a rhai'n eu methu'n gyfan gwbl.

Darpariaeth

Mae'r cwricwlwm ym mhob un o'r tri choleg yn briodol ar y cyfan ac yn cynnig cyfleoedd i'r dysgwyr weithio ar gyrsiau galwedigaethol fel garddwriaeth, ffermio a gwaith seiri coed. Mae'r profiadau dysgu'n helpu'r dysgwyr i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd ac i ddatblygu eu medrau byw'n annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn y colegau arbenigol annibynnol yn dda neu'n well. Mae'r athrawon yn cynllunio'r sesiynau'n ofalus ac yn trefnu gweithgareddau diddorol sy'n cynnal diddordeb y dysgwyr ac yn datblygu eu medrau. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn rheoli ymddygiad yn dda ac yn herio'r dysgwyr i wneud eu gorau ac i gyflawni canlyniadau da.

Mae'r athrawon yn defnyddio gwybodaeth asesu'n dda i wneud yn siŵr bod y gwaith maen nhw'n ei osod ar y lefel iawn. Maen nhw'n gosod targedau priodol i helpu'r dysgwyr i wella'u medrau ac i fod yn fwy annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn cynorthwyo'r dysgwyr yn dda i ddatblygu eu medrau cyfathrebu. Maen nhw'n addasu adnoddau'n briodol gan ofalu bod pob dysgwr yn gallu cymryd rhan lawn yn y sesiynau.

Mewn ychydig o achosion, nid yw'r athrawon yn gosod gwaith sy'n ddigon heriol, ac maen nhw'n rhoi gormod o gyfarwyddiadau i'r dysgwyr llai galluog. Ambell waith nid ydyn nhw'n gofalu bod pob dysgwr yn cymryd rhan yn eu sesiynau. Mae hyn yn gallu digwydd pan nad yw'r athrawon yn defnyddio dewis priodol o ddulliau cyfathrebu 'estynedig' fel arwyddion a symbolau sydd ddim yn dibynnu ar ddefnyddio geiriau llafar na geiriau ysgrifenedig.

Mae dewis da o therapïau fel y rheini ar gyfer lleferydd ac iaith ar gael i'r dysgwyr. Maen nhw'n cael cymorth unigol defnyddiol gyda materion personol penodol. Ym mhob un o'r colegau, mae polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol ar waith.

Mae'r dysgwyr yn cael addysg bersonol a chymdeithasol dda, ac maen nhw'n cael eu hannog i drin ei gilydd â pharch. Mae dewis eang o leoliadau ar gael lle y gallan nhw gael profiad gwaith addas. Mae'r colegau'n trefnu lleoliadau mewnol defnyddiol i'r dysgwyr sydd angen mwy o gefnogaeth. Mae'r lleoliadau yma'n golygu helpu yn swyddfa neu gaffi'r coleg, neu helpu i ofalu am yr adeilad a'r tir.

Mae holl adeiladau'r colegau'n dda, ac mae'r ystafelloedd dosbarth yn ddeniadol ac yn llawn croeso.

> *"Mae'r athrawon yn cynllunio'r sesiynau'n ofalus ac yn trefnu gweithgareddau diddorol sy'n cynnal diddordeb y dysgwyr ac yn datblygu eu medrau."*

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn gwneud yn siŵr bod yr athrawon a'r staff gofal yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a bod ganddyn nhw yr un dyheadau ar gyfer y dysgwyr. Maen nhw'n arsylwi'r gwersi'n rheolaidd er mwyn arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Ond nid yw arweinwyr a rheolwyr dau o'r colegau bob amser yn defnyddio'r canfyddiadau o arsylwadau gwersi fel sail i herio'r athrawon i wella.

Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn defnyddio canfyddiadau hunanarfarnu'n ofalus ar y cyfan i wneud gwelliannau. Fel arfer maen nhw'n gofyn am farn y rhieni, y gofalwyr a'r staff, ond nid ydyn nhw'n defnyddio'r wybodaeth yma bob amser i gynllunio gwelliannau. Nid yw'r targedau maen nhw'n eu gosod yn ddigon pendant o hyd i'w galluogi i fonitro'r cynnydd dilynol yn effeithiol.

Digonol yw dulliau'r colegau arbenigol o ddefnyddio data i adnabod y cryfderau a'r gwendidau er mwyn cynllunio'r broses o godi safonau a gwella'r ddarpariaeth. Ond nid ydyn nhw'n mynd ati'n ddigon gofalus i olrhain cyrchfannau'r dysgwyr nac i asesu i ba raddau maen nhw'n setlo yn eu lleoliadau newydd. Nid ydyn nhw'n dilyn cynnydd y dysgwyr yma i ganfod a yw'r coleg wedi'u paratoi'n ddigon da i fyw yn eu cymunedau.

Mae'r colegau'n gweithio'n dda gyda dewis eang o bartneriaid, gan gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau iechyd a gwirfoddol, er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd a chymorth i'r dysgwyr. Un enghraifft o hyn yw'r ffordd mae dysgwyr un o'r colegau'n gweithio'n dda gyda rhai o fyfyrwyr adran gelf Prifysgol Morgannwg ar brosiect ar y cyd sy'n archwilio doniau creadigol dysgwyr ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig.

Mae'r colegau'n rheoli adnoddau'n effeithlon.

> *"Nid yw'r targedau maen nhw'n eu gosod yn ddigon pendant o hyd i'w galluogi i fonitro'r cynnydd dilynol yn effeithiol."*

Unedau cyfeirio disgyblion

Mae dyletswydd statudol ar yr awdurdodau lleol i gofrestru unedau cyfeirio disgyblion gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar hyn o bryd mae 41 o unedau cyfeirio disgyblion wedi'u cofrestru yng Nghymru.

Perfformiad a rhagolygon

Eleni fe arolygon ni ddwy uned cyfeirio disgyblion (UCD). Mae'r perfformiad yn ddigonol ar y cyfan yn y ddwy UCD.

Mae'r rhagolygon gwella'n ddigonol yn y ddwy UCD.

Mae angen gweithgarwch dilynol yn y ddwy UCD a gafodd eu harolygu eleni. Mae angen gwelliant sylweddol ar un o'r unedau, ac mae angen monitro gan Estyn ar y llall.

Mae'r addysgu yn un o'r darparwyr yn anfoddhaol, a heb fod yn well na digonol yn y llall. Mae diffygion i'w gweld yn arweinyddiaeth a rheolaeth y ddau ddarparwr, yn enwedig o ran diwallu anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion, defnyddio data i olrhain cynnydd y disgyblion, ac o ran rhoi prosesau cadarn ar waith i hunanarfarnu a chynllunio gwelliannau.

Deilliannau

Mae'r deilliannau'n dda yn gyffredinol yn un o'r UCD yr arolygon ni eleni, ac yn ddigonol yn y llall.

Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn y ddwy UCD yn cyflawni'n dda. Maen nhw'n ennill dewis da o gymwysterau priodol ac yn gwella'u medrau sylfaenol. Dros amser, maen nhw'n gwella'u presenoldeb a'u hymddygiad ac yn dechrau dysgu i feddwl sut y byddan nhw'n ymateb i bobl eraill ac yn gweithio gyda nhw.

Ond nid yw lleiafrif sylweddol o'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Presenoldeb gwael sy'n gyfrifol am hyn ran amlaf, a'r ffaith eu bod nhw'n dal i gyrraedd yr ysgol a'r gwersi'n hwyr. Nid yw lleiafrif sylweddol o'r disgyblion yn cymryd rhan lawn yn y gwersi gan wastraffu eu hamser a thynnu sylw'r disgyblion eraill.

Mae'r disgyblion sy'n mynd ar brofiad gwaith yn ei fwynhau ar y cyfan ac maen nhw'n dysgu medrau defnyddiol a fydd yn eu helpu i gael gwaith. Ond er bod dewis da o leoliadau ar gael lle y gallan nhw gael profiad defnyddiol, mae disgyblion un o'r UCD yn aml yn peidio â mynychu'r lleoliadau sydd wedi'u trefnu ar eu cyfer.

Mae'r disgyblion yn deall pwysigrwydd byw'n iach ac yn cydnabod bod ymarfer corff yn gwneud lles iddyn nhw. Maen nhw'n cyfathrebu'n dda gyda'r staff gan drafod y pethau pwysig sy'n eu poeni a rhoi sylw iddyn nhw.

Ffigur 2.16: Niferoedd yr unedau cyfeirio disgyblion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth

Mae darpariaeth y ddwy UCD a gafodd eu harolygu eleni'n ddigonol ar y cyfan.

Mae'r ddwy UCD yn darparu'r 25 awr o addysg amser llawn sy'n cael ei argymell, gan gynnwys gweithgareddau awyr agored. Mae'r ddwy UCD yn cynnig rhai cyfleoedd da i'r disgyblion ddysgu am iaith a diwylliant Cymru. Mae un o'r unedau'n helpu'r disgyblion i ddeall addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae'r athrawon yn rheoli ymddygiad yn dda yn y rhan fwyaf o'r gwersi. Yn y gyfran fach o'r dosbarthiadau ble mae'r addysgu'n dda, mae'r athrawon yn gosod amcanion clir, yn cynllunio'n dda, yn defnyddio dewis da o wahanol adnoddau gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ac yn gofalu bod y gwaith yn gyson â galluoedd y disgyblion.

Mae'r disgyblion yn cael cyngor a chymorth i'w helpu i wella'u lles. Mae'r staff yn helpu'r disgyblion i adnabod a gweld gwerth amrywiaeth. Mae un UCD yn cynnig addysg dda ar ryw, a chyfle i gael therapïau fel rheoli tymer. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol ar waith yn y ddwy uned.

Er hynny, mae diffygion i'w gweld yn narpariaeth y ddwy uned, ac mae'r rhain yn atal cynnydd y disgyblion. Mae gormod o addysgu sydd heb fod yn well na digonol. Nid yw'r gweithgareddau dysgu'n canolbwyntio digon ar wella medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion.
Nid yw'r staff:

- yn herio ymddygiad gwael yn gyson nac yn gwneud digon o ddefnydd o sancsiynau;
- yn gosod gwaith bob amser sy'n helpu'r disgyblion mwy galluog i ddatblygu eu medrau'n llawn; nac
- yn gweithio'n ddigon da i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion.

Mae gormod o'r cynlluniau addysg unigol yn methu cynnwys targedau penodol y gallwn ni eu mesur. Nid yw'r athrawon yn defnyddio'r cynlluniau i osod gwaith wedi'i deilwra a fyddai'n helpu'r disgyblion i wneud gwell cynnydd.

Nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd ar y cyfan i dderbyn cyfrifoldebau nac i benderfynu ynglŷn â'u gwaith a'u dulliau dysgu eu hunain. Aeth un o'r unedau ati'n ddiweddar i sefydlu cyngor ysgol, ond mae'n rhy gynnar i roi barn ar effaith ei waith.

Ffigur 2.17: Nifer yr unedau cyfeirio disgyblion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn y ddwy UCD a gafodd eu harolygu eleni'n ddigonol ar y cyfan.

Mae'r ddwy UCD yn gweithio'n dda gydag amryw o wahanol bartneriaid i geisio diwallu anghenion y disgyblion a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae pwyllgorau rheoli'r ddwy uned yn gweithio'n agos gyda'r rhwydweithiau 14-19 i gynnig dewis o wahanol gyrsiau i'r disgyblion.

Mae'r naill uned a'r llall yn dechrau defnyddio hunanarfarnu mewn ffordd fwy priodol i ddewis camau gweithredu a fydd yn gwella'r ddarpariaeth a deilliannau'r disgyblion.

Ond nid yw'r pwyllgorau rheoli:

- yn defnyddio data'n ddigon trwyadl i olrhain cynnydd y disgyblion yn yr UCD neu ar ôl iddyn nhw fynd yn ôl i'w hysgolion;
- yn sicrhau bod y profiadau dysgu'n rhoi sylw i wendidau ym medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion; nac
- yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion.

Nid yw un awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda'r unedau cyfeirio disgyblion a'r ysgolion yn ei ardal i helpu'r disgyblion i fynd yn ôl i'w hysgolion ac i aros yno. Nid oes digon o gynrychiolwyr o'r gymuned ar bwyllgor rheoli'r UCD arall, ac nid oes ganddo fawr o ddylanwad ar benderfyniadau'r awdurdod lleol ynglŷn â'r UCD. Mae cymwysterau'r staff yn dda ar y cyfan. Er bod y rheolwyr yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu perfformiad eu staff ac i gynnig hyfforddiant defnyddiol, nid yw'r camau yma wedi effeithio digon ar y broses o wella ansawdd yr addysgu.

Ffigur 2.18: Niferoedd yr unedau cyfeirio disgyblion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Lleoliadau[3] i blant dan bump oed

Mae rhyw 737[4] o leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant rhwng tair a phump oed.

Perfformiad a rhagolygon

Eleni, aethom ati i arolygu 115 o leoliadau nas cynhelir[5]. Mae perfformiad yn dda neu'n well ar y cyfan yn 90% o'r lleoliadau yma. Mae'n rhagorol yn 3% o'r lleoliadau, ac yn ddigonol yn 10%.

Mae'r rhagolygon gwella'n dda neu'n well yn 93% o'r lleoliadau nas cynhelir, ac yn rhagorol yn 8% o'r lleoliadau. Digonol yw'r rhagolygon yn 6% o'r lleoliadau, ac anfoddhaol yn 1%.

Mae angen ymweliadau dilynol gan Estyn ar ryw 8% o'r lleoliadau nas cynhelir. Mae angen gwelliant â ffocws ar un lleoliad, ac ymweliad monitro gan Estyn ar wyth arall. Cafodd 9% arall eu barnu'n 'dda' ar y cyfan yn eu harolygiadau, ond bod yno un neu ddau o feysydd pwysig i'w gwella. Rydyn ni'n gofyn i'r awdurdodau lleol am adroddiad manwl ar y cynnydd y bydd y deg lleoliad yma'n ei wneud.

Yn bron pob un o'r lleoliadau sydd angen gwelliant â ffocws neu fonitro gan Estyn, nid yw'r safonau, y profiadau dysgu a'r addysgu'n well na digonol. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau, yn enwedig medrau darllen ac ysgrifennu cynnar, yn ddigon da i sicrhau bod yr holl blant yn gwneud cynnydd gystal â phosib. Nid yw'r cynllunio na'r addysgu'n cynnig digon o her i lawer o'r plant hŷn a mwy galluog. Ym mhob achos bron, mae diffygion yn yr arweinyddiaeth a'r camau gwella ansawdd. Yn llawer o'r achosion, mae'r prosesau hunanarfarnu'n rhy anffurfiol ac nid ydyn nhw'n canolbwyntio digon ar wella safonau.

Mae angen monitro gan yr awdurdod lleol ar lawer o'r lleoliadau, ac mae diffygion yn eu haddysgu ac yn y cwricwlwm. Ond mae rhagolygon gwella'r lleoliadau yma'n dda ar y cyfan, diolch i waith athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol sydd wedi bod wrthi'n datblygu medrau'r staff i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

[3] Mae'r term yma'n cyfeirio at ddarparwyr addysg i blant tair oed, nad yw'r awdurdod lleol yn eu cynnal.

[4] Mae nifer y lleoliadau nas cynhelir sydd wedi cofrestru gyda phartneriaethau lleol i ddarparu addysg yn codi a gostwng yn ôl p'un a yw plant tair oed a hŷn yn mynychu'r lleoliad neu beidio. Mae'r niferoedd yn amrywio hefyd yn ôl y trefniadau lleol i ariannu'r ddarpariaeth.

[5] Mewn lleoliadau bach lle mae llai nas chwech o blant yn eu mynychu, mae arolygwyr yn adrodd ar y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn unig. Rydyn ni'n gwneud hyn er mwyn osgoi enwi plant unigol mewn adroddiadau.

Mae lleoliadau sydd wedi'u gosod ar y lefel yma o weithgarwch dilynol yn methu darparu safon dderbyniol o addysg, ac nid yw'r arweinwyr yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.

Deilliannau

Yn y lleoliadau a gafodd eu harolygu, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni safonau da o leiaf ym mhob un o'r meysydd dysgu bron. Maen nhw hefyd yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu o adeg eu derbyn i'r lleoliad.

Mae'r plant yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau'n gwrando'n dda ac yn ymateb yn frwdfrydig i storïau, rhigymau a chaneuon. Maen nhw'n siarad yn eiddgar am y pethau maen nhw'n eu gwneud. Mae llawer ohonyn nhw'n dangos diddordeb mewn llyfrau, maen nhw'n arbrofi'n frwdfrydig gyda gwahanol offer i wneud marciau, ac maen nhw'n defnyddio medrau cyfrif priodol. Yn gyffredinol, nid yw medrau'r plant mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi'u datblygu gystal â'u medrau eraill.

Mae safonau'r plant yn rhagorol yn nifer bach iawn o'r lleoliadau. Yn y lleoliadau yma, mae'r holl blant bron yn dod yn annibynnol iawn ac yn llawn hyder, ac maen nhw'n dyfalbarhau wrth ddysgu.

Yn tua hanner y lleoliadau cyfrwng Saesneg, nid yw'r plant yn gwneud digon o gynnydd mewn Cymraeg. Er bod llawer o'r plant yn ymateb yn briodol wrth ddefnyddio'r iaith yn ystod sesiynau grŵp cyfan, nid ydyn nhw'n ddigon hyderus ar y cyfan i ddefnyddio Cymraeg yn naturiol wrth chwarae.

Mae lles y plant yn un o gryfderau pob un o'r lleoliadau bron. Mae'r holl blant bron yn mynd ati'n dda i wneud gweithgareddau dysgu, maen nhw'n chwarae ar y cyd â phlant eraill ac yn dangos eu bod yn deall y rheolau a'r patrymau gwaith arferol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwybod am bwysigrwydd bwyta'n iach, ac maen nhw'n gallu disgrifio'r newidiadau yn eu cyrff pan fyddan nhw'n weithgar yn gorfforol.

> *"Yn gyffredinol, nid yw medrau'r plant mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi'u datblygu gystal â'u medrau eraill."*

Ffigur 2.19: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth

Mae'r ddarpariaeth yn dda neu'n well ar y cyfan yn tua naw o bob deg o'r lleoliadau a gafodd eu harolygu.

Mae llawer o'r lleoliadau'n cynnig profiadau dysgu diddorol i'r plant ym mhob un bron o'r meysydd dysgu. Mae'r gwaith cynllunio'n cynnwys pob maes dysgu ac mae'n ddigonol o leiaf. Mae chwarae yn yr awyr agored yn effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad corfforol y plant.

Mae llawer o'r lleoliadau'n cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant. Ond yn chwarter y lleoliadau, mae gwendidau yn y ffordd mae'r athrawon yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu cynnar y plant, eu medrau Cymraeg a'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mewn lleiafrif o'r lleoliadau, nid yw'r gweithgareddau a gynlluniwyd yn llwyddo i ennyn diddordeb y plant.

Mae llawer o'r athrawon yn defnyddio dewis da o ddulliau ac adnoddau addysgu i annog y plant i fod yn annibynnol ac i ddatblygu eu gallu i ddatrys problemau. Ond nid yw ychydig o'r athrawon yn cynnig digon o gyfleoedd i'r plant 'roi cynnig arni' a dysgu o'u camgymeriadau. Mae gwybodaeth ychydig o'r athrawon am y ffordd mae plant ifanc yn dysgu'n llai sicr hefyd, ac nid ydyn nhw'n adnabod sut y dylai'r plant weithredu er mwyn gwella. Un o nodweddion gwan eu darpariaeth yw asesu.

Mae bron pob un o'r lleoliadau'n darparu gofal, cymorth ac arweiniad da, ac mae hynny'n cyfrannu'n dda at gynnydd a lles y plant. Mae pob un bron o'r lleoliadau wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol ar waith, ac maen nhw'n hyrwyddo ethos cynhwysol sy'n llawn gofal.

Mae'r amgylchedd dysgu yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau'n briodol i'r plant, ac mae'n cynnig cyd-destunau cyffrous ar gyfer dysgu drwy chwarae. Ond yn un o bob pump o'r lleoliadau, nid yw'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored yn cael ei ddefnyddio'n ddigon da, neu nid oes adnoddau da ganddo. Mae diffyg adnoddau priodol mewn nifer bach iawn o'r lleoliadau i hybu ymwybyddiaeth a pharch at wahanol ddiwylliannau.

Ffigur 2.20: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau y gwnaethon ni eu harolygu. Yn y nifer bach iawn o'r lleoliadau lle mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol, mae'r arweinwyr yn annog y staff i fyfyrio ar eu hymarfer eu hunain ac i ddod o hyd i ffyrdd gwell o wneud pethau. Yn y lleoliadau yma, mae'r arweinwyr yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro gwaith yr athrawon. Wrth gynllunio at y dyfodol maen nhw'n gosod blaenoriaethau perthnasol ar gyfer datblygu a hyfforddi'r staff. Ble mae'r arweinyddiaeth yn ddigonol, nid yw'r arweinwyr yn rhoi digon o sylw i wella safonau a lles y plant, ac ansawdd yr addysgu. Mewn ychydig o'r lleoliadau, nid yw'r pwyllgor rheoli na'r perchennog yn mynd ati'n ddigon manwl i fonitro beth sy'n digwydd yn y lleoliad o ddydd i ddydd.

Mae llawer o'r sefydliadau wedi rhoi gweithdrefnau priodol ar waith i wirio a gwella ansawdd. Mae'r athrawon yn y lleoliadau yma'n gwybod sut i ddefnyddio hunanarfarnu fel sail i'r gwaith cynllunio. Yn yr ychydig o leoliadau ble mae'r arfer yn rhagorol, mae'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i drafod a chyflwyno gwelliannau. Ond mae'r trefniadau hunanarfarnu'n wan yn ychydig o'r lleoliadau, ac nid ydyn nhw'n cyfrannu'n ddigon da at y broses o gynllunio gwelliannau.

Mae gweithio mewn partneriaethau'n dda neu'n well yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau. Mae bron pob un o'r lleoliadau wedi creu perthynas gadarn gyda'r rhieni a'r gofalwyr, ac maen nhw'n defnyddio adnoddau cymunedol yn dda i ehangu profiadau dysgu'r plant. Mae'r rhan fwyaf o'r lleoliadau'n gweithio'n dda hefyd gyda staff cymorth yr awdurdodau lleol i wella'u trefniadau ar gyfer hunanarfarnu, cynllunio'r cwricwlwm ac asesu.

Mae'r rhan fwyaf o'r lleoliadau a gafodd eu harolygu'n cynnig gwerth da am arian. Maen nhw'n defnyddio'u staff a'u hadnoddau'n dda i helpu'r plant i ddysgu.

Ffigur 2.21: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

Perfformiad a rhagolygon

Eleni fe wnaethon ni arolygu'r gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn saith o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae perfformiad yn dda ar y cyfan mewn dau o'r awdurdodau y gwnaethon ni eu harolygu. Digonol yw perfformiad tri awdurdod, ac mae perfformiad dau'n anfoddhaol.

Mae rhagolygon gwella dau awdurdod yn dda. Digonol yw rhagolygon tri o'r awdurdodau, ac mae rhagolygon gwella dau arall yn anfoddhaol. Mae angen gweithgarwch dilynol mewn cyfanswm o bump o'r saith awdurdod a gafodd eu harolygu. Mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith yn un o'r awdurdodau, ac mae angen gwelliant sylweddol ar un arall. Yn y ddau awdurdod yma, mae'r perfformiad presennol a'r rhagolygon gwella'n anfoddhaol. Bydd Estyn yn cynnal ymweliadau monitro â thri awdurdod ble mae llawer o agweddau ar eu gwaith heb fod yn well na digonol.

Deilliannau

Mae safonau pump o'r saith awdurdod yr arolygon ni eleni'n dda, mae safonau un yn ddigonol a safonau un arall yn anfoddhaol. Nid oedd unrhyw safonau rhagorol i'w gweld.

Yn yr awdurdodau ble'r oedd y safonau'n dda, mae'r ysgolion yn perfformio'n dda o gymharu ag ysgolion tebyg ar sail gwybodaeth sy'n golygu rhoi sylw i'w cyd-destun. Mae'r awdurdodau yma wedi bodloni neu wedi rhagori ar y rhan fwyaf o feincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad, ar sail yr hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a pherfformiad merched yn llai ar y cyfan na'r cyfartaledd ar draws Cymru. Mae grwpiau penodol o'r disgyblion, gan gynnwys dysgwyr sy'n agored i niwed a'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni safonau gwell.

Yn yr awdurdodau hynny lle mae'r safonau'n ddigonol neu'n anfoddhaol, mae gormod o'u hysgolion yn y 25% isaf o ysgolion Cymru o gymharu ag ysgolion tebyg mewn mannau eraill.

Dim ond mewn lleiafrif o'r awdurdodau a gafodd eu harolygu y mae'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da ac yn symud ymlaen at y cyfnod nesaf yn eu haddysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Yn y gweddill, mae canran y dysgwyr sy'n parhau mewn addysg amser llawn yn 16 oed yn rhy isel, ac mae gormod ohonyn nhw heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Roedd enghreifftiau da i'w gweld yn rhai o'r awdurdodau o ddysgwyr sy'n ennill cymwysterau priodol yn lleoliadau gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol neu mewn lleoliadau anffurfiol eraill. Ond mae gormod o'r awdurdodau lleol yn methu casglu na dadansoddi data ar y cymwysterau yma'n ddigon da i allu cymharu'r deilliannau â darparwyr eraill.

Yn y pedwar o'r saith awdurdod lleol ble mae lles yn dda:

- mae presenoldeb y dysgwyr yn yr ysgolion yn gwella, ac mae'n cymharu'n dda â phresenoldeb mewn awdurdodau eraill sydd â chefndir cymdeithasol ac economaidd tebyg; ac
- mae'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n barod i gymryd rhan yn cyfrannu'n dda at y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, er enghraifft, trwy gynadleddau a chynghorau ieuenctid.

Yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau, mae'r dysgwyr yn deall pwysigrwydd bwyta a byw'n iach. Maen nhw'n manteisio ar ddewis da o weithgareddau corfforol mewn lleoliadau addysg, hamdden a chymunedol, ac mae nifer y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn pethau fel gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgolion uwchradd yn tystio i hyn. Mae'r dysgwyr yn elwa hefyd ar gyfleoedd da i gael cymorth, arweiniad a chwnsela proffesiynol.

Yn yr awdurdodau hynny lle mae agweddau ar les y dysgwyr angen eu gwella, y ffaith nad yw cyfraddau presenoldeb a gwaharddiadau'n gwella'n ddigon cyflym sy'n gyfrifol fel arfer. O ganlyniad, mae'r dysgwyr yn colli gormod o ddiwrnodau yn yr ysgol, ac maen nhw'n llai tebygol o ennill cymwysterau priodol.

Ffigur 2.22: Niferoedd yr awdurdodau lleol a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth

Cymorth i wella ysgolion

Mae'r gwasanaethau gwella ysgolion yn cynnwys gwasanaethau cymorth, monitro, herio ac ymyrraeth yr awdurdod yn ei ysgolion. Mae hefyd yn cynnwys codi safonau mewn meysydd blaenoriaeth a gwella'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth.

Mae'r cymorth mae pedwar o'r awdurdodau lleol yn ei gynnig i wella ysgolion yn dda. Digonol yw cymorth dau awdurdod ac mae cymorth un arall yn anfoddhaol.

Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau wedi gosod meini prawf clir ar gyfer cynorthwyo a herio'u hysgolion, ac mae'r ysgolion yn cael gwybod am y meini prawf yma. O ganlyniad, mae llawer o'r awdurdodau lleol wedi atgyfnerthu eu gwaith gydag ysgolion, er bod lefel yr her yn rhai ohonyn nhw'n amrywio gormod rhwng y sector cynradd a'r sector uwchradd. Mae'r ysgolion uwchradd yn cael eu herio llai weithiau. Yn llawer o'r awdurdodau, mae ychydig o'r ysgolion wedi cael tanberfformio dros gyfnod hir, a hynny'n bennaf am nad yw'r awdurdodau'n defnyddio'r holl bwerau sydd ganddyn nhw i wella'r ysgolion yn ddigon cyflym. O ganlyniad, mae safonau'r dysgwyr yn aros yn rhy isel am gyfnod rhy hir.

Mae swyddogion yn mynd ati'n amlach i ddadansoddi data perfformiad yn dda, ac maen nhw'n defnyddio'r dadansoddiadau i herio mwy ar eu hysgolion. Maen nhw'n cyhoeddi adolygiadau o'r ysgolion, sydd wedi'u seilio ar ddadansoddi data a thystiolaeth uniongyrchol yn sgil ymweliadau ag ystafelloedd dosbarth. Ond yn rhy aml, nid yw'r swyddogion yn targedu'r adolygiadau yma at ysgolion sy'n tanberfformio. Nid ydyn nhw chwaith yn arfarnu'n ddigon trylwyr ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn yr ysgol, nac yn rhoi digon o sylw i gryfderau'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth pan fyddan nhw'n pennu categori risg yr ysgolion.

Fel rhan o'n trefniadau arolygu ysgolion a chyn mynd i unrhyw ysgol, rydyn ni'n gofyn i'r awdurdod lleol baratoi adroddiad ysgrifenedig ar waith yr ysgol i aelodau'r tîm arolygu. Yn rhy aml, nid yw'r adolygiadau yma'n rhoi dadansoddiad digon cadarn o waith yr ysgol ac nid ydyn nhw'n adnabod diffygion yn ogystal â chryfderau yn ddigon clir. Mae hyn yn awgrymu nad yw pob awdurdod lleol yn deall perfformiad eu hysgolion yn ddigon cywir.

Mae gan y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol y gwnaethon ni eu harolygu fentrau sydd wedi'u sefydlu'n dda i wella llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Maen nhw hefyd yn cynnig cymorth i'r Cyfnod Sylfaen a'r Llwybrau Dysgu 14-19. Ond mae'n anodd rhoi barn ar effaith y mentrau yma ar wella safonau a chyrhaeddiad am nad yw'r swyddogion yn mynd ati'n ddigon da i olrhain y cynnydd mae'r dysgwyr yn ei wneud.

Nid yw uwch reolwyr awdurdodau lleol yn monitro gwaith swyddogion gwella ysgolion yn ddigon trwyadl i wneud yn siŵr eu bod yn herio pob ysgol mewn modd cyson.

Ffigur 2.23: Nifer y barnau a ddyfarnwyd yng Nghwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r cymorth ar gyfer gwella ysgolion (dangosydd ansawdd 2.1)?



Cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant addysgol

Mae'r maes gwasanaeth yma'n cynnwys bodloni rhwymedigaethau statudol ar gyfer dysgwyr sydd â gwahanol anghenion dysgu ychwanegol, a'r ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr yma. Mae'r gwaith hefyd yn cynnwys darpariaeth asiantaethau eraill.

Mae un o'r saith gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) y gwnaethon ni eu harolygu'n rhagorol, ac mae dau ohonyn nhw'n dda. Mae meysydd pwysig i'w gwella yn y pedwar gwasanaeth arall.

Mae bron pob un o'r awdurdodau a gafodd eu harolygu'n methu mynd ati'n systematig i gasglu ac arfarnu data ar berfformiad y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gormod o'r awdurdodau heb fod yn gwybod a yw'r dysgwyr wedi'u lleoli'n briodol a ph'un a ydyn nhw'n cael y cymorth ychwanegol maen nhw ei angen neu beidio. Mae'r cynllunio ar gyfer lleoliadau'r tu allan i'r sir wedi gwella ar y cyfan, ond nid yw'r awdurdodau'n monitro'n dda deilliannau dysgu'r disgyblion sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion annibynnol y tu allan i'r sir.

Nid yw'r gwasanaethau ADY a'r gwasanaethau gwella ysgolion eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn ddigon cydlynol i gynllunio'n strategol ac i gyflwyno'u gwasanaethau. Nid ydyn nhw chwaith yn monitro effaith eu gwasanaethau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod nhw wir yn gwella deilliannau'r disgyblion. Nid yw llawer o'r awdurdodau wedi rhoi gweithdrefnau digon clir ar waith i wybod pa bryd ac am ba hyd mae angen iddyn nhw gynnig cymorth ychwanegol i'r dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn gweithio'n dda i atgyfnerthu gallu'r ysgolion i ddiwallu anghenion dysgu pob disgybl, ac mae hyn yn dechrau lleihau nifer yr atgyfeiriadau i gael cymorth ychwanegol. Mae bron pob un o'r awdurdodau lleol wedi ffurfio partneriaethau effeithiol, ac maen nhw'n cynnwys nifer o asiantaethau yn y dasg o adnabod a chefnogi disgyblion ag anghenion cymhleth.

Mae bron pob awdurdod lleol wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran dirprwyo cyllid anghenion dysgu ychwanegol i'r ysgolion, ond mae'r cynnydd yn rhy araf.

Ffigur 2.24: Nifer y barnau a ddyfarnwyd yng Nghwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant cymdeithasol (dangosydd ansawdd 2.2)?



Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles

Mae hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles yn cynnwys gwasanaethau sy'n hyrwyddo presenoldeb da, sy'n atal disgyblion rhag cael eu gwahardd o'r ysgol, sy'n cynorthwyo grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed a gwasanaethau sy'n cynnig arweiniad a chyngor priodol i bobl ifanc. Mae hefyd yn cynnwys trefniadau i gadw pob dysgwr yn ddiogel.

O'r saith o awdurdodau a gafodd eu harolygu, mae un yn rhagorol, mae un yn dda, mae pedwar yn ddigonol ac mae un yn anfoddhaol o ran ansawdd eu gwasanaeth cynhwysiant cymdeithasol a lles.

Mae'r awdurdodau lleol yn cynllunio'u gwasanaethau cynhwysiant yn briodol ar y cyfan. Maen nhw'n cynnig gwahanol fathau o gymorth i grwpiau o bobl ifanc sy'n agored i niwed, ac i'r rheiny sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu o fod â phresenoldeb gwael, neu o adael addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Ond yn rhy aml, nid yw effaith y trefniadau yma'n ddigon i wella presenoldeb ac ymddygiad y dysgwyr. Nid ydyn nhw chwaith yn lleihau nifer y bobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Nid yw'r swyddogion bob amser yn defnyddio data i dargedu mentrau'n ddigon effeithiol at y mannau ble y byddai'r effaith fwyaf.

Mae pob un o'r awdurdodau lleol yn gweithio'n dda gyda gwahanol bartneriaid ac asiantaethau perthnasol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc y mae angen cymorth arnyn nhw. Yn llawer o'r awdurdodau mae'r gwasanaethau cymorth ieuenctid wedi gwella'r cyfle i bobl ifanc gael cymorth, arweiniad a chwnsela proffesiynol. Ond nid yw'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn arfarnu effaith eu darpariaeth yn ddigon cyson i wybod ble mae'n fwyaf effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yr arolygon ni eleni wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau diogelu clir ar waith. Mae systemau'r awdurdodau lleol yn effeithiol ar y cyfan, ac yn sicrhau bod y staff sy'n dod i gysylltiad â phlant wedi cael archwiliadau'r swyddfa cofnodion troseddol. Ond yn rhy aml nid yw'r awdurdodau lleol yn defnyddio dulliau digon cadarn o fonitro'u trefniadau diogelu. Ac nid ydyn nhw'n gofalu bod pob aelod o'u staff wedi cael eu hyfforddi ar y lefel briodol.

Ffigur 2.25: Nifer y barnau a ddyfarnwyd yng Nghwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda mae cynhwysiant cymdeithasol a lles yn cael eu hyrwyddo (dangosydd ansawdd 2.3)?



Mynediad a lleoedd ysgol

Mae'r maes gwasanaeth yma'n cynnwys derbyniadau i ysgolion, cynllunio lleoedd ysgol a mynediad i addysg y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymorth ieuenctid.

O'r saith awdurdod lleol a gafodd eu harolygu, mae pump yn dda ac mae dau'n ddigonol o safbwynt safon eu gwasanaeth mynediad a lleoedd ysgol.

Mae llawer o'r awdurdodau wedi cytuno ar strategaethau priodol a chynlluniau cysylltiedig, ac wedi eu rhoi ar waith er mwyn moderneiddio'u hysgolion a lleihau nifer y lleoedd dros ben. Maen nhw wedi gwneud cynnydd da o safbwynt ad-drefnu ysgolion cynradd. Ond nid yw tua hanner yr awdurdodau a gafodd eu harolygu wedi gwneud gymaint o gynnydd o safbwynt lleihau nifer y lleoedd dros ben yn eu hysgolion uwchradd.

Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol y gwnaethon ni eu harolygu wedi casglu gwybodaeth ddiweddar am gyflwr, maint ac addasrwydd adeiladau eu hysgolion. Mae llawer yn defnyddio'r data yma'n effeithiol i flaenoriaethu adnoddau. Ond nid yw ychydig o'r awdurdodau'n ymgynghori'n ddigon da ag ysgolion cyn cytuno ar raglenni gwario.

Mae pob un o'r awdurdodau'n cynnig dewis addas a digonol o ran darpariaeth y blynyddoedd cynnar. Maen nhw'n monitro ac yn arfarnu ansawdd y ddarpariaeth yn dda. Ar y cyfan maen nhw'n defnyddio'r deilliannau'n effeithiol i gynllunio a chyflwyno hyfforddiant perthnasol. Mae pob awdurdod yn cynnig dewis addas o wasanaethau cymorth ieuenctid i bobl ifanc. Yn hanner yr awdurdodau a gafodd eu harolygu, mae'r dewis o wasanaethau'n dda.

Ffigur 2.26: Nifer y barnau a ddyfarnwyd yng Nghwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda mae'r ddarpariaeth ar gyfer mynediad a lleoedd ysgol (dangosydd ansawdd 2.4)?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

Dim ond mewn dau o'r awdurdodau lleol a gafodd eu harolygu eleni yr oedd arweinyddiaeth a rheolaeth dda i'w gweld. Mae meysydd pwysig i'w gwella yn y pump arall. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth dau awdurdod yn anfoddhaol.

Ble mae'r arweinyddiaeth yn dda, mae'r aelodau etholedig a'r uwch swyddogion yn rhannu gweledigaeth gyson a chydlynol ar gyfer y gwasanaethau addysg, ac maen nhw'n barod i wneud penderfyniadau anodd er lles y dysgwyr. Mae'r awdurdodau yn cyfathrebu'n dda ac wedi creu cysylltiadau da â phob un o'i randdeiliaid. Yn yr awdurdodau yma, mae'r broses graffu wedi'i threfnu'n dda ac mae'n hybu gwelliant yn effeithiol.

Nid yw aelodau etholedig yr awdurdodau eraill yn rhoi digon o bwyslais ar wella safonau'r dysgwyr wrth wneud eu penderfyniadau strategol. Nid yw'r cynlluniau strategol bob amser yn cynnwys yr holl wasanaethau addysg, yn enwedig y gwasanaethau cymorth ieuenctid ehangach.

Yn rhai o'r awdurdodau, nid yw'r swyddogion yn mynd ati'n gyson i rannu gwybodaeth â'r aelodau etholedig. Mae hyn yn golygu bod yr aelodau etholedig yn cael trafferth herio perfformiad y gwasanaethau ac asesu i ba raddau maen nhw'n cyflawni eu dyletswyddau diogelu. Ar ben hynny, nid ydyn nhw'n gwneud swyddogion yr awdurdod lleol ac arweinwyr yr ysgolion yn ddigon atebol am berfformiad gwael neu berfformiad o safon ddigon cyffredin.

Mae swyddogion lleiafrif o'r awdurdodau lleol yn mynd ati i arfarnu eu gwaith yn rheolaidd. Mae gan y swyddogion a'r aelodau ddealltwriaeth realistig a manwl o berfformiad yr awdurdod cyfan. Ond nid yw prosesau hunanarfarnu awdurdodau eraill yn ddigon trylwyr a chyson, ac nid ydyn nhw wedi'u cynnwys yn y cylch gwella blynyddol ar gyfer yr holl wasanaethau. Nid yw'r swyddogion yn arfarnu effaith y cymorth neu'r mentrau ar ddeilliannau'r dysgwyr yn gyson.

Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau hunanarfarnu y cawson ni gan awdurdodau lleol cyn arolygiad yn fanwl ac wedi'u seilio ar lawer o dystiolaeth. Mae'r mwyafrif o'r adroddiadau'n pennu'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Ond nid yw'r adroddiadau yma ar y cyfan yn arfarnu digon, ac maen nhw'n cyflwyno tystiolaeth heb ei dadansoddi. Mae nifer bach iawn o'r adroddiadau'n methu sôn am waith yr holl wasanaethau neu waith y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. O ganlyniad, ni allwn ni fod yn siŵr fod yr awdurdodau yma'n eu hadnabod eu hunain yn ddigon da i gynllunio eu camau gwella'n ddigon cynhwysfawr.

Fe ganfuon ni fod partneriaethau'n mynd ati'n effeithiol ar y cyfan i ddod ag aelodau'r gwahanol adrannau a sectorau at ei gilydd. Yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau, mae partneriaethau fel y Rhwydwaith 14-19 a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn helpu darparwyr i ymestyn y dewis o gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc. Er hynny, nid yw effaith gweithio mewn partneriaethau

Ffigur 2.27: Nifer yr awdurdodau lleol a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



wedi bod yn ddigon cadarn eto i wella deilliannau'r dysgwyr.

Er bod pob un o'r awdurdodau lleol yn cydweithio â'u consortia addysg rhanbarthol a lleol, dim ond ambell un sy'n gallu sôn yn glir am effaith y cydweithio yma o safbwynt gwella gwasanaethau neu ddeilliannau.

Yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol, mae'r aelodau etholedig yn rhoi blaenoriaeth gadarn i addysg wrth ddyrannu adnoddau ariannol. Mae'r awdurdodau lleol wedi rhoi systemau da ar y cyfan ar waith ar gyfer cynllunio ariannol. Ond yn y mwyafrif o'r arolygiadau eleni, ein barn oedd nad yw'r awdurdodau lleol yn mynd ati'n drylwyr ac yn ddigon da i adolygu eu defnydd o adnoddau i ddiwallu anghenion pob dysgwr ac i gyflawni gwerth am arian. Yn rhai o'r achosion, nid ydyn nhw'n rheoli adnoddau'n effeithiol yn eu gwaith gyda'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

Nid yw'r awdurdodau lleol yn gweithio'n ddigon da ar y cyfan o safbwynt herio'r ysgolion sydd â chronfeydd mawr wrth gefn neu ddiffyg yn eu cyllidebau. O ganlyniad, nid yw disgyblion yr ysgolion yma'n cael y budd gorau o'r adnoddau sy'n cael eu darparu ar gyfer eu haddysg.

Ysgolion y mae angen gweithgarwch dilynol ynddynt

Ffigur 2.28: Ysgolion y mae angen gweithgarwch dilynol ynddynt 2010-2011

Awdurdod lleol	Cyfanswm yr arolygiadau (a)	Arfer ragorol	Monitro gan yr awdurdod lleol	Monitro gan Estyn	Gwelliant sylweddol	Mesurau arbennig
Abertawe	20	6	4	3	0	0
Blaenau Gwent	4	0	1	2	0	0
Bro Morgannwg	11	0	2	1	0	1
Caerffili	10	0	3	0	0	0
Caerdydd	20	1	4	6	0	0
Casnewydd	13	5	1	2	0	0
Castell-nedd Port Talbot	12	1	5	2	0	0
Ceredigion	8	0	0	1	0	0
Conwy	11	0	2	1	1	0
Gwynedd	23	1	7	6	0	0
Merthyr Tudful	4	2	0	1	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	16	1	3	0	1	0
Powys	19	1	2	3	2	2
Rhondda Cynon Taf	26	3	3	9	1	0
Sir Benfro	8	2	0	2	0	0
Sir Ddinbych	8	2	1	1	0	0
Sir Gaerfyrddin	17	0	8	3	0	0
Sir Fynwy	6	0	1	1	1	0
Sir y Fflint	17	4	2	3	1	1
Torfaen	8	1	4	1	2	0
Wrecsam	10	1	2	2	1	0
Ynys Môn	8	0	2	1	0	0
Cymru	**279**	**31**	**57**	**51**	**10**	**4**

(a) Nifer yr holl ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig a gynhelir a'r unedau cyfeirio disgyblion a arolygwyd yn ystod 2010-2011

Yn ystod pob arolygiad craidd o ysgolion a gynhelir, mae'r tîm arolygu'n ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr ysgol.

Mae pum math o weithgarwch dilynol:

1 Astudiaeth achos o arfer ragorol

2 Monitro gan yr awdurdod lleol

3 Ymweliad monitro gan Estyn

4 Gwelliant sylweddol

5 Mesurau arbennig

Mae'r gweithgarwch dilynol cyntaf yn golygu gweld yr ysgol yn creu astudiaeth achos o'r arfer ragorol y bydd Estyn yn ei lledaenu. Mae'r ail weithgarwch yn golygu gweld yr awdurdod lleol perthnasol yn creu adroddiad i Estyn. Mae'r tri gweithgarwch olaf yn golygu ymweliadau gan arolygwyr Estyn. Ar wahân i'r astudiaeth achos o arfer ragorol, mae'r gweithgarwch dilynol yn golygu camau ymyrraeth sy'n codi yn eu lefel yn ôl yr angen.

Mae'r ddau weithgarwch dilynol olaf yn gategorïau ffurfiol sy'n gymwys i ysgolion sy'n peri pryder yn ôl diffiniad Deddf Addysg 2005 ac unrhyw gylchlythyrau cysylltiedig.

Ym mis Medi 2010, roedd 13 o ysgolion ar y rhestr o ysgolion a oedd yn peri pryder. Yn ystod y flwyddyn, cafodd naw ysgol eu tynnu oddi ar y rhestr honno. Roedd tair o'r ysgolion yma'n ysgolion cynradd a thair yn ysgolion uwchradd yr oedd angen gwelliant sylweddol arnyn nhw. Roedd tair ysgol gynradd yn y categori mesurau arbennig.

Yn 2010-2011, enwodd yr arolygwyr ddeg ysgol yr oedd angen gwelliant sylweddol arnyn nhw, a phedair ysgol yr oedd angen gweithredu mesurau arbennig ynddyn nhw. Mae hyn yn rhyw 5% o'r cyfanswm o'r holl ysgolion a gafodd eu harolygu.

> *"Ar wahân i'r astudiaeth achos o arfer ragorol, mae'r gweithgarwch dilynol yn golygu camau ymyrraeth sy'n codi yn eu lefel yn ôl yr angen."*

Sefydliadau addysg bellach

Roedd 22 o sefydliadau'n darparu cyrsiau addysg bellach yng Nghymru yn Ionawr 2011. Roedd tri o'r rhain yn sefydliadau addysg uwch oedd yn cynnig nifer bach o raglenni addysg bellach. Yn 2009-2010[7], roedd 196,925 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar raglenni addysg bellach. O'r myfyrwyr yma, roedd 44,135 yn rhai amser llawn, a 152,785 yn rhai rhan-amser. Cynyddodd nifer y myfyrwyr cofrestredig llawn amser o tua 2.7% o gymharu â'r nifer yn 2008-2009, ac roedd tua 7.3% yn llai o fyfyrwyr rhan-amser. Roedd y ffigurau cofrestru uchaf yn ystod 2009-2010 ar gyfer cyrsiau sylfaen i waith, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ac iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a meysydd dysgu gofal. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr a gofrestrodd ar gyrsiau sylfaen i waith, ond gostyngiad yn nifer y rhai a gofrestrodd ar gyrsiau peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu. Mae mwyafrif o'r dysgwyr wedi'u cofrestru ar gyrsiau lefel 1 neu 2. Roedd cynnydd o 1.1% yn nifer y dysgwyr 19 oed ac iau o gymharu â'r niferoedd yn y flwyddyn flaenorol, a gostyngiad o 6.4% yn nifer y rhai 20 oed a hŷn. Roedd tua 4.2% o'r gweithgareddau dysgu'n cael eu gwneud yn ddwyieithog, a thua 0.5% drwy gyfrwng y Gymraeg.

[7] SDR 68/2011 Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru 2009/10, Llywodraeth Cymru, 27 Ebrill 2011. http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16education2011/110427/?skip=1&lang=cy

Perfformiad a rhagolygon

Fe arolygon ni bedwar sefydliad addysg bellach eleni. Mae un ohonyn nhw'n goleg chweched dosbarth ffydd, mae dau'n golegau addysg bellach cyffredinol ac mae un yn sefydliad addysg uwch sy'n cynnig cyrsiau addysg bellach.

Mae perfformiad un o'r sefydliadau'n rhagorol ar y cyfan, a pherfformiad un arall yn dda. Digonol yw perfformiad un sefydliad, ac mae perfformiad un arall yn anfoddhaol.

Mae rhagolygon gwella tri o'r pedwar sefydliad a gafodd eu harolygu'n dda neu'n well ar y cyfan. Mae'r rhagolygon yn anfoddhaol yn un o'r sefydliadau.

Mae angen gweithgarwch dilynol ar un o'r sefydliadau am fod y perfformiad presennol a'r rhagolygon gwella'n anfoddhaol. Bydd Estyn yn cynnal ail arolygiad o'r sefydliad yma.

Deilliannau

Roedd y safonau yn y pedwar sefydliad a gafodd eu harolygu eleni'n amrywio o ragorol i anfoddhaol. Yn un coleg lle'r oedd y safonau'n rhagorol, mae cyfraddau llwyddo'r dysgwyr o ran cwblhau ac ennill cymwysterau uwchlaw neu ymhell uwchlaw cyfraddau llwyddo'r colegau eraill yng Nghymru. Mae'r safonau'n anfoddhaol mewn coleg arall am fod cyfraddau cwblhau ac ennill cymwysterau'r dysgwyr islaw cyfraddau'r colegau eraill yng Nghymru. Maen nhw hefyd wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf. Yn y ddau sefydliad arall, ble mae safonau'n dda neu'n ddigonol, mae cyfraddau llwyddo'r dysgwyr wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf.

Yn y colegau a gafodd eu harolygu, mae cyfraddau llwyddo'r dysgwyr ar Gymhwyster Bagloriaeth Cymru'n dda neu'n rhagorol. Mewn dau goleg, mae gan y dysgwyr sy'n cael Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) gyfradd lwyddo gyffredinol sydd uwchlaw'r gyfradd mae'r dysgwyr nad ydyn nhw'n cael y lwfans yn y coleg yn ei chyflawni.

Mae'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da ar y cyfan ym mhob un o'r pedwar sefydliad o ran datblygu eu gwaith llafar ac ysgrifenedig. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn siarad yn glir ac yn hyderus, ac maen nhw'n defnyddio'r medrau yma'n dda mewn sesiynau dosbarth cyfan a sesiynau grŵp. Mae gwaith ysgrifenedig y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn briodol i'w lefel astudio. Nid yw dysgwyr un o'r sefydliadau bob amser yn datblygu eu medrau llafar yn ddigon da ym mhob un o'r gwersi.

Mae cyrhaeddiad dysgwyr tri o'r sefydliadau'n amrywio o ddigonol i ragorol o ran ennill cymwysterau medrau hanfodol. Yn y sefydliadau yma, mae llawer o'r dysgwyr yn ennill pob un o'r chwech o fedrau allweddol o ganlyniad i gymryd rhan yn llwyddiannus yn y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Yn un o'r sefydliadau, nid yw'r dysgwyr yn dilyn rhaglen ffurfiol o addysgu medrau hanfodol.

Mae'r holl ddysgwyr ar raglenni galwedigaethol ac academaidd yn gwneud cynnydd da neu ddigonol o ran datblygu'r medrau a'r wybodaeth sy'n berthnasol i'w cyrsiau astudio. Yn eu gwaith galwedigaethol, mae sgiliau llafar, ysgrifenedig ac ymarferol da gan fwyafrif o'r dysgwyr. Mae llawer o'r dysgwyr yn datblygu medrau ymchwilio da ac maen nhw'n defnyddio adnoddau ar-lein yn effeithiol i hybu ac i ymestyn eu dysgu.

Mae'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac mae bron pob un yn mwynhau ei raglenni. Mae'r holl ddysgwyr bron yn cymryd rhan weithredol yn y sesiynau, ac maen nhw'n llawn brwdfrydedd wrth siarad am eu profiadau dysgu. Maen nhw'n amlwg yn ystyriol iawn o bobl eraill ac yn eu trin â pharch a gofal mawr. Mae cyfraddau presenoldeb tri o'r sefydliadau'n dda, a chyfraddau'r pedwerydd yn ddigonol.

Ffigur 2.29: Nifer y sefydliadau addysg bellach a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth

Mae'r ddarpariaeth i ddysgwyr yn dda ar y cyfan mewn tri o'r sefydliadau a gafodd eu harolygu, ac yn ddigonol yn y pedwerydd. Mae un sefydliad yn cynnig profiadau dysgu rhagorol, a chwricwlwm eang ac amrywiol sy'n diwallu anghenion y dysgwyr yn dda. Mae llwybrau dilyniant da rhwng lefel mynediad hyd at lefel 3 yn y ddau goleg addysg bellach cyffredinol. Mae pob un o'r sefydliadau'n cynnig cyfleoedd da i'r dysgwyr ddatblygu a gwella'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r disgyblion mwy galluog a dawnus yn un o'r sefydliadau'n cael eu herio'n fawr wrth iddyn nhw ddysgu am wahanol faterion cymhleth a'u trafod. Nid yw un sefydliad yn mynd ati'n ddigon da i gynllunio cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu eu medrau llafar ym mhob un o'r gwersi. Mae tri sefydliad wedi sefydlu partneriaethau 14-19 effeithiol sy'n cynnig cyfleoedd dysgu da i ddysgwyr eu hardaloedd.

Mae ansawdd yr addysgu'n dda mewn dau o'r sefydliadau ac yn ddigonol yn y lleill. Ble mae'r addysgu'n dda, mae'r athrawon wedi gosod nodau ac amcanion clir ac maen nhw'n defnyddio dewis helaeth o weithgareddau ac adnoddau da i ennyn diddordeb y dysgwyr. Mae cydbwysedd da rhwng cyfraniad yr athro a gweithgarwch y dysgwyr. Hefyd, mae'r athrawon yn paratoi deunyddiau a sesiynau'n dda er mwyn diwallu anghenion dysgwyr o bob gallu. Pan fo'r addysgu'n ddigonol mae'r sesiynau'n cael eu cyflwyno'n rhy araf, ac nid yw'r athrawon:

- yn darparu'n ddigon da ar gyfer gwahanol alluoedd y dysgwyr yn y dosbarth; ac
- maen nhw'n methu cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr ochr yn ochr â datblygu eu gwybodaeth alwedigaethol neu academaidd.

Mae'r holl athrawon bron yn gwybod llawer am eu pynciau, ac maen nhw'n mynd ati'n ofalus ac yn aml i asesu gwaith y dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn rhoi adborth llafar da i'r dysgwyr ar eu gwaith. Ond nid yw'r adborth ysgrifenedig yn ddigon manwl bob tro i alluogi'r dysgwyr i wybod sut y gallan nhw wella'u gwaith.

Mae tri o'r sefydliadau wedi rhoi trefniadau da neu dda iawn ar waith i roi cymorth, gofal ac arweiniad i'r dysgwyr. Mae gwybodaeth y dysgwyr am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael ar eu cyfer yn dda ar y cyfan. Mae'r dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth unigol da neu dda iawn.

Mae pob un o'r sefydliadau wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu'r dysgwyr. Maen nhw i gyd yn cynnig amgylchedd cynhwysol ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda. Mae mannau cymunedol deniadol a dymunol ym mhob un o'r sefydliadau. Mae ganddyn nhw gyfleusterau addysgu a hyfforddi da neu ragorol sy'n diwallu anghenion byd diwydiant a'r gymuned. Mae un o'r colegau wedi gweithio'n agos iawn gyda diwydiant ynni yn yr ardal i ddatblygu cyfleusterau rhagorol ym maes peirianneg.

Ffigur 2.30: Nifer y sefydliadau addysg bellach a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth tri o'r sefydliadau y gwnaethon ni eu harolygu'n dda neu'n rhagorol. Yn y darparwyr yma, mae'r uwch dimau rheoli'n gosod targedau strategol clir ac yn cyfleu'r rhain yn dda i bob aelod o'r staff ac i'w partneriaid. Maen nhw wedi rhoi gweithdrefnau clir ac effeithiol ar waith i wella perfformiad y staff. Yn y sefydliadau yma, mae'r llywodraethwyr yn gwybod llawer am eu rôl a'u cyfrifoldebau, ac maen nhw'n cynorthwyo'r uwch reolwyr i osod amcanion strategol. Maen nhw hefyd yn eu herio i symud ymlaen i gyflawni'r amcanion yma. Mae'r sefydliadau yma'n bodloni'r blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda. Nid yw rheolwyr un o'r sefydliadau wedi rhoi pwyslais digon cadarn ar wella ansawdd a safonau.

Mae'r trefniadau ar gyfer monitro a gwella ansawdd yn amrywio o ragorol i anfoddhaol ym mhob un o'r pedwar sefydliad a gafodd eu harolygu. Mae staff a rheolwyr tri o'r colegau wedi rhoi prosesau hunanarfarnu ac adolygu effeithiol ar waith. Maen nhw'n deall eu cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella, ac maen nhw wedi creu cynlluniau a gosod targedau clir ar gyfer gwella ansawdd a safonau. Mae trefniadau effeithiol yn y colegau yma ar gyfer arsylwi yn yr ystafell ddosbarth, ac maen nhw'n defnyddio data'n dda i fonitro a gwella deilliannau'r dysgwyr. Ble mae trefniadau'n anfoddhaol, nid yw'r rheolwyr wedi sicrhau gwelliannau yng nghyfraddau llwyddo'r dysgwyr, ac nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer monitro ac olrhain cynnydd y dysgwyr yn ddigon cadarn.

Roedd gwaith partneriaeth tri o'r sefydliadau'n dda neu'n rhagorol. Mae'r sefydliadau yma'n cyfrannu'n effeithiol at bartneriaethau 14-19 eu hardaloedd. Mae ganddyn nhw bartneriaethau da neu ragorol gyda chyflogwyr lleol a Cholegau Cymru. Mae dau o'r sefydliadau wedi creu partneriaethau effeithiol gyda cholegau addysg bellach eraill i ddarparu dysgu yn y gwaith yn eu hardaloedd.

Mae tri o'r sefydliadau yr arolygon ni eleni'n rheoli eu hadnoddau'n dda neu'n rhagorol. Mae'r sefydliadau yma'n rheoli eu cyllid yn dda iawn ac yn cynnig gwerth da am arian. Maen nhw'n defnyddio'u cyllid yn dda i ddarparu adnoddau dysgu da neu ragorol ac i wella deilliannau'r dysgwyr o flwyddyn i flwyddyn. Maen nhw wedi rhoi rhaglenni effeithiol ar waith i ddatblygu'r staff. Maen nhw'n canolbwyntio'n briodol ar wella safonau ac addysgu, ac ar fodloni blaenoriaethau cenedlaethol fel gwella llythrennedd a rhifedd y dysgwyr. Ond anfoddhaol yw trefniadau rheoli adnoddau un o'r sefydliadau. Nid yw'r sefydliad yma'n defnyddio'i adnoddau'n ddigon da i wella deilliannau'r dysgwyr.

Gweithio mewn partneriaeth i wella cyfleusterau ac adnoddau

Mae **Coleg Sir Benfro** yn gweithio gyda'r sector ynni a'r sector peirianneg i gyflwyno addysg a hyfforddiant o'r safon uchaf yn yr ardal.

I weld mwy o wybodaeth am hyn, cyfeiriwch at yr astudiaeth achos 'Gweithio mewn partneriaeth â sectorau i ddylunio ac adeiladu cyfleusterau newydd'.

Ffigur 2.31: Nifer y sefydliadau addysg bellach a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Dysgu yn y gwaith

Ar ddechrau'r cylch arolygu yma roedd 66 o ddarparwyr dysgu yn y gwaith. Yn 2009-2010[8], roedd 55,845 o ddysgwyr yn dilyn rhaglenni dysgu yn y gwaith. O'r dysgwyr yma, roedd 16,305 yn gwneud prentisiaethau modern, roedd 20,075 yn gwneud prentisiaethau modern sylfaen, ac roedd 19,465 yn gwneud mathau eraill o hyfforddiant. Mae llawer o'r dysgwyr yn dilyn hyfforddiant ar lefel 2 neu 3.

Perfformiad a rhagolygon

Eleni, fe arolygon ni wyth o ddarparwyr dysgu yn y gwaith. Mae perfformiad chwech o'r darparwyr yn dda ar y cyfan, a pherfformiad dau arall yn ddigonol.

Mae rhagolygon gwella saith o'r darparwyr yn dda, a rhagolygon un yn ddigonol.

Mae diffygion i'w gweld yn un neu fwy o'r dangosyddion ansawdd yn rhai o'r darparwyr a gafodd farn a oedd yn dda ar y cyfan. Gan mai digonol yn unig yw eu perfformiad presennol, mae angen gweithgarwch dilynol yn achos dau o'r darparwyr dysgu yn y gwaith. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y darparwyr yma wrth iddyn nhw roi sylw i argymhellion yr arolygiad.

[8] SDR 68/2011 Ystadegau Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru 2009/10, Llywodraeth Cymru, 27 Ebrill 2011. http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16education2011/110427/?skip=1&lang=cy

Deilliannau

Mae deilliannau chwech o'r wyth darparwr a gafodd eu harolygu eleni'n dda, ac mae deilliannau dau'n ddigonol.

Mae cyfraddau llwyddo'r dysgwyr yn yr wyth darparwr a gafodd eu harolygu'n amrywio o dda i ddigonol ar y cyfan. Yn chwech o'r darparwyr lle mae'r deilliannau'n dda, mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gymwys yn yr agweddau ymarferol ar eu hyfforddiant ac mae eu gwybodaeth ddamcaniaethol yn sicr. Maen nhw'n cwblhau eu fframweithiau hyfforddi'n llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da o ran ennill Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol. Yn genedlaethol, mewn busnes, gweinyddu a'r gyfraith, ac addysg a hyfforddiant y mae'r cyfraddau llwyddo uchaf o ran fframweithiau'r holl brentisiaethau[9]. Mewn trin gwallt a harddwch, adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig, ac amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid y mae'r deilliannau gwannaf.

Mewn dau ddarparwr ble mae'r safonau'n ddigonol, mae cynnydd y dysgwyr tuag at gwblhau eu fframweithiau hyfforddi'n arafach. Mae gallu ymarferol a gwybodaeth ddamcaniaethol y mwyafrif o'r dysgwyr yn foddhaol. Ond nid yw lleiafrif o'r dysgwyr yn deall yn glir yr hyn mae angen iddyn nhw ei wneud i gwblhau eu fframweithiau hyfforddi.

Mae cynnydd y dysgwyr o ran ennill cymwysterau medrau hanfodol priodol yn amrywio o ddigonol i dda ar y cyfan. Ble mae'r safonau'n dda, mae lleiafrif sylweddol o'r dysgwyr yn ennill y medrau yma ar lefel uwch na'r lefel sy'n ofynnol yn ôl eu fframwaith cymwysterau. Mae mwyafrif o'r dysgwyr yn ennill y cymwysterau medrau hanfodol ehangach. Ble nad yw'r safonau'n well na digonol, dim ond ar y lefel sy'n ofynnol yn ôl eu fframwaith hyfforddi y mae mwyafrif o'r dysgwyr yn ennill y medrau yma.

Mae mwyafrif o'r dysgwyr yn cyfathrebu'n dda gyda'r staff hyfforddi, y cyflogwyr a'u cyd-ddysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn mwynhau eu profiadau hyfforddi. Mae'n amlwg eu bod yn parchu eu hyfforddwyr, eu cyflogwyr a'u cyd-ddysgwyr. Mae presenoldeb y dysgwyr yn dda ar y cyfan, yn y swydd ac i ffwrdd o'r swydd.

Ffigur 2.32: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



[9] SDR 75/2011 Cymaryddion Cenedlaethol ar gyfer Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith 2009/2010, Llywodraeth Cymru, 12 Mai 2011. http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16education2011/1105121/?skip=1&lang=cy

Darpariaeth

At ei gilydd, mae darpariaeth saith o'r wyth darparwr a gafodd eu harolygu'n dda, ac mae darpariaeth un yn ddigonol.

Mae pob un o'r darparwyr yn cynnig rhaglen hyfforddi berthnasol a dewis addas o gymwysterau sy'n diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn dda, ac sydd ar y lefel briodol. At ei gilydd, mae'r tueddiadau recriwtio ym mhob un o'r meysydd galwedigaethol yn debyg i dueddiadau'r llynedd. Ond nid yw niferoedd y lleoedd hyfforddi dan gontract a'r lleoedd sydd ar gael yn cyfateb yn dda bob amser i nifer y swyddi posib sydd ar gael. Mae hyn yn golygu'n aml fod llawer o'r darparwyr yn ceisio trefnu cyfleoedd hyfforddi gyda'r un cyflogwr. Mae llawer o'r darparwyr yn cynnig cyfleoedd da i'r dysgwyr symud ymlaen i'r lefel hyfforddi nesaf ac i ddatblygu eu medrau. Ond nid yw lleiafrif o'r darparwyr yn rhoi digon o flaenoriaeth i ddatblygu medrau llythrennedd y dysgwyr.

Mae ansawdd hyfforddi ac asesu pump o'r darparwyr y gwnaethon ni eu harolygu'n dda. Yn y darparwyr yma, mae staff yn mynd ati'n dda i drefnu asesiadau a sesiynau hyfforddi yn y gwaith ac mewn mannau eraill. Mae ganddyn nhw strategaethau asesu clir ac maen nhw'n defnyddio dull systematig o olrhain cynnydd y dysgwyr. Yn ystod gweithgareddau i ffwrdd o'r swydd, mae'r hyfforddwyr yn defnyddio dewis da o adnoddau i ennyn diddordeb y dysgwyr. Yn achos tri darparwr, ble nad yw'r asesu'n well na digonol, nid yw'r aseswyr yn cynllunio'n dda. Nid ydyn nhw chwaith yn herio'r dysgwyr yn briodol i gwblhau eu hasesiadau neu i gasglu gwybodaeth ar gyfer portffolio'r Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol. Mae'r staff yn aml yn methu trefnu gweithgareddau asesu addas a fyddai'n cynnig tystiolaeth ddefnyddiol o gynnydd y dysgwyr o ran datblygu eu medrau ymarferol.

Mae pob un o'r darparwyr a gafodd eu harolygu wedi gwneud trefniadau da i gynnig gofal, arweiniad a chymorth i'r dysgwyr. Mae pob un wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol ar waith.

Mae'r amgylchedd dysgu'n dda mewn chwech o'r darparwyr ac yn ddigonol mewn dau. Mae pob un yn hyrwyddo cydraddoldeb a pharch at amrywiaeth yn dda. Mae llawer o'r dysgwyr yn gweithio mewn gweithleoedd sy'n cynnig cyfle i ddefnyddio dewis mawr o wahanol adnoddau. Yn ystod hyfforddiant i ffwrdd o'r swydd, mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr hefyd yn gallu defnyddio dewis da o adnoddau. Ond yn achos dau o'r darparwyr, nid yw'r adeiladau na'r adnoddau'n ddigon da, ac mae hyn yn atal cynnydd y dysgwyr.

Mae lleiafrif o'r darparwyr yn cynnig hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'r rhan fwyaf o'r darparwyr yn gwneud digon i annog dysgwyr sy'n Gymry Cymraeg i wneud eu hyfforddiant ac i gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ffigur 2.33: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda ym mhump o'r darparwyr a gafodd eu harolygu eleni, ac maen nhw'n ddigonol mewn tri. Ble mae'r arweinyddiaeth yn dda, mae'r uwch reolwyr yn gosod blaenoriaethau a thargedau strategol clir, ac maen nhw'n eu monitro'n ofalus er mwyn asesu i ba raddau maen nhw'n cael eu cyflawni. Maen nhw'n cyfathrebu'n dda gyda'r staff a'u prif bartneriaid. Mae'r darparwyr yma wedi rhoi gweithdrefnau cynhwysfawr ac effeithiol ar waith i adolygu a gwella perfformiad y staff. Yn achos tri o'r darparwyr, nid yw'r rheolwyr yn rhoi digon o sylw yn ystod y broses o asesu perfformiad y staff i'r cyflymdra mae'r dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau.

Mae'r trefniadau ar gyfer gwella ansawdd yn dda yn achos pump o'r darparwyr yr arolygon ni. Mae'r darparwyr yma wedi creu systemau hunanarfarnu cynhwysfawr ac effeithiol. Mae'r rheolwyr a'r staff yn mynd ati'n ofalus i fonitro deilliannau a darpariaeth er mwyn adnabod y cryfderau a'r diffygion, ac maen nhw'n cynllunio'n dda i wella ansawdd. Maen nhw'n defnyddio data i osod targedau ac i wella deilliannau'r dysgwyr.

Ble nad yw'r trefniadau gwella ansawdd yn well na digonol, nid yw'r rheolwyr yn adnabod y dulliau o wella gallu'r dysgwyr i gyflawni eu fframweithiau hyfforddi, nac yn eu rhoi ar waith.

Mae gwaith partneriaeth un darparwr yn rhagorol. Mae gwaith y saith darparwr arall a gafodd eu harolygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr wedi creu partneriaethau effeithiol gydag dewis helaeth o bartneriaid sy'n cynnwys cyflogwyr lleol, colegau addysg bellach a sefydliadau eraill sy'n darparu hyfforddiant. Ond yn y mwyafrif o'r achosion, nid yw'r partneriaethau gydag ysgolion wedi cael eu datblygu digon. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion yr ysgolion yn cael digon o wybodaeth am y gwahanol fathau o hyfforddiant galwedigaethol sydd ar gael ar eu cyfer. Yn yr achosion ble mae'r gweithio mewn partneriaethau'n rhagorol, mae'r darparwr yn gweithio gyda'i bartneriaid i ddatblygu strategaethau ac arferion gweithio ar y cyd, gan gynnwys prosiectau ar y cyd sy'n effeithio'n gadarnhaol ar gynnydd y dysgwyr.

Mae'r trefniadau rheoli adnoddau'n dda yn chwech o'r darparwyr y gwnaethon ni eu harolygu. Mae'r darparwyr yma'n gofalu bod y dysgwyr yn mynd i weithleoedd sy'n cynnig adnoddau da. Mae'r mwyafrif o'r darparwyr yn cefnogi'r staff yn dda gan gynnig rhaglenni datblygu proffesiynol priodol sy'n gwella ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu. Nid yw dau o'r darparwyr yn defnyddio adnoddau'n ddigon da i wneud y safle'n fwy addas ac i wella ansawdd yr adeiladau fel bod deilliannau'r dysgwyr yn gwella.

Mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr yn rheoli eu cyllid yn dda, ac maen nhw'n cynnig gwerth da am arian.

Ffigur 2.34: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Dysgu oedolion yn y gymuned

Mae 16 o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru. Mae'r partneriaethau yma'n cynnwys nifer o wahanol ddarparwyr yn ardaloedd yr awdurdodau lleol. Yn eu plith mae colegau addysg bellach, yr awdurdod lleol ei hun, canolfannau iaith Gymraeg, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, y Cyngor Gwirfoddol Sirol a chyrff gwirfoddol lleol.

Mae tri sefydliad addysg bellach hefyd yn darparu hyfforddiant dysgu oedolion yn y gymuned. Y sefydliadau yma yw Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Gogledd Cymru Coleg Harlech a Choleg Cymunedol YMCA Cymru.

Eleni fe arolygon ni bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned (DOG) Sir Gaerfyrddin a Rhondda Cynon Taf, a Choleg Cymunedol YMCA Cymru. Mae'r gwahanol ddarparwyr yn cynnig dewis amrywiol o gyrsiau i oedolion. Yn eu plith mae cyrsiau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, celf a dylunio, addysg sylfaenol oedolion, Cymraeg i oedolion a chyrsiau datblygu personol.

Canolfan Ranbarthol Cymraeg i Oedolion De Orllewin Cymru

Eleni, fe wnaethon ni hefyd arolygu **Canolfan Ranbarthol Cymraeg i Oedolion De Orllewin Cymru**. Sefydlwyd y ganolfan yma ym Mhrifysgol Abertawe ym mis Mai 2006 fel un o chwech o ganolfannau rhanbarthol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i arwain y maes. Mae perfformiad a rhagolygon gwella'r ganolfan yma'n ddigonol.

I weld mwy o wybodaeth am y ganolfan yma, cyfeiriwch at yr ***adroddiad llawn***.

Perfformiad a rhagolygon

Eleni fe arolygon ni dri darparwr. Mae perfformiad un o'r darparwyr yn rhagorol a pherfformiad un arall yn dda. Digonol yw perfformiad un darparwr.

Mae rhagolygon gwella dau o'r darparwyr yn dda neu'n well. Mae rhagolygon un arall yn ddigonol.

Mae angen gweithgarwch dilynol yn y ddwy bartneriaeth DOG gan nad yw eu perfformiad presennol na'u rhagolygon gwella'n ddigonol. Yn y ddwy bartneriaeth, nid yw'r gweithdrefnau gwella ansawdd yn well na digonol. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y partneriaethau yma wrth iddyn nhw roi sylw i argymhellion yr arolygiad.

Deilliannau

Mae deilliannau dau o'r darparwyr a gafodd eu harolygu'n dda neu'n well. Maen nhw'n ddigonol yn y darparwr arall.

Mae'r safonau mae'r dysgwyr yn eu cyflawni yn y tri darparwr a gafodd eu harolygu'n amrywio gormod.

Mae llawer o'r dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau gwaith ieuenctid yn datblygu eu medrau sylfaenol a'u medrau cyfathrebu'n dda. Ond mewn un bartneriaeth DOG, dim ond rhyw hanner y dysgwyr mewn addysg sylfaenol i oedolion (ASO) a Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) sy'n datblygu eu medrau sylfaenol yn foddhaol.

Mae'r dysgwyr yn defnyddio'u cynlluniau dysgu unigol yn dda ar y cyfan i wella'u dysgu a'u medrau. Ond nid yw ychydig o'r dysgwyr yn deall sut gall y cynlluniau yma'u helpu i osod amcanion priodol i wella'u dysgu ac i adolygu eu cynnydd.

Mae'r holl ddysgwyr bron yn llawn cymhelliant. Maen nhw'n mynychu'n rheolaidd ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig. Mae llawer ohonyn nhw'n dod i ddeall llawer am ffyrdd iach o fyw trwy ddysgu am feysydd fel bwyta'n iach, camddefnyddio cyffuriau ac iechyd meddwl.

Mae llawer o'r dysgwyr yn defnyddio'u profiadau i wneud gwaith defnyddiol yn eu cymunedau fel gwirfoddolwyr. Mae dysgwyr hŷn yn dysgu medrau newydd ac yn elwa ar weithio gyda'u cyd-ddysgwyr. Ond nid yw'r dysgwyr yn gwneud digon o ddefnydd o arweiniad annibynnol ynglŷn â gyrfaoedd i'w helpu i wneud penderfyniadau ac i gynllunio eu dyfodol.

Mae dysgwyr o amryw o gefndiroedd o amddifadedd neu rai sy'n agored i niwed yn cyflawni'n dda. Mae'r dysgwyr yma, gan gynnwys troseddwyr neu ddysgwyr sydd ar raglenni i bobl sy'n cam-drin cyffuriau, yn dechrau'n aml ar bwynt cychwyn isel. Ond maen nhw'n dysgu i wella'u medrau ac yn symud ymlaen at gyrsiau anoddach, neu i swyddi.

Ffigur 2.35: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth

Mae darpariaeth dau o'r darparwyr yr arolygon ni eleni'n dda neu'n well. Digonol yw darpariaeth y darparwr arall.

Mae pob un o'r darparwyr yn cynnig dewis helaeth o raglenni sy'n diwallu anghenion llawer o ddysgwyr a chymunedau'n dda. Yn benodol, mae'r darparwyr yn gweithio'n dda mewn partneriaethau er mwyn rhoi sylw i lawer o wahanol anghenion dysgu. Ond mae ansawdd darpariaeth y gwahanol ddarparwyr yn amrywio gormod. Yn un o'r partneriaethau DOG, nid oes unrhyw strategaeth glir i wella medrau sylfaenol aelodau'r gymuned ac nid oes digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Mae ansawdd gwaith addysgu dau o'r darparwyr y gwnaethon ni eu harolygu eleni'n dda neu'n well. Yn y darparwyr yma, mae'r tiwtoriaid yn defnyddio'u harbenigedd yn dda i gynllunio dewis helaeth o weithgareddau diddorol a heriol. Ym mhob un o'r darparwyr, mae'r tiwtoriaid yn gweithio'n dda ac yn ymateb i ddiddordebau a galluoedd y dysgwyr. Ond mae gormod o diwtoriaid yn methu defnyddio cynlluniau dysgu unigol yn ddigon da i roi cyfeiriad i'r dysgu. Nid ydyn nhw chwaith yn helpu'r dysgwyr i adolygu eu cynnydd.

Mae'r tiwtoriaid yn cynnig gofal a chymorth da i'r dysgwyr ar y cyfan. Ond nid oes digon o staff yn cynnig arweiniad defnyddiol i'r dysgwyr o safbwynt defnyddio'u medrau a'u cymwysterau yn eu bywydau neu eu gyrfaoedd.

Mae'r darparwyr wedi rhoi polisïau priodol ar waith i ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed. Ond mae gormod o'r tiwtoriaid heb ddeall yn ddigon clir yr amgylchiadau sy'n gwneud oedolion yn agored i niwed. Maen nhw hefyd yn ansicr ynglŷn â'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes unrhyw ddigwyddiadau argyfyngus yn digwydd.

Mae amgylchedd dysgu pob un o'r darparwyr yn dda neu'n well.

Gweithio effeithiol mewn partneriaeth i gynorthwyo dysgwyr sy'n agored i niwed

Mae **Coleg Cymunedol YMCA Cymru** wedi llwyddo'n dda i gynllunio ac i gyflwyno dewis o safon o gyrsiau achrededig sydd wedi'u seilio ar fedrau, i ddysgwyr sy'n droseddwyr o bob rhan o Gymru.

I weld mwy o wybodaeth am hyn, cyfeiriwch at yr astudiaeth achos 'Diben a chyfeiriad clir = llwyddiant'.

Ffigur 2.36: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth un o'r darparwyr yn rhagorol. Digonol ydyn nhw yn y ddau ddarparwr arall.

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn amrywio gormod ar y cyfan. Dim ond un o'r partneriaethau DOG sy'n cyflawni ei rôl strategol yn dda. Nid yw uwch reolwyr y bartneriaeth arall wedi llwyr ddeall gwerth partneriaeth ffurfiol. Nid oes unrhyw gynllun partneriaeth sy'n disgrifio blaenoriaethau dysgu oedolion. Nid yw byrddau'r gwasanaethau lleol ar y cyfan yn rhoi digon o sylw gynlluniau ar gyfer rhaglenni dysgu oedolion.

Mae'r darparwr sy'n goleg wedi rhoi systemau rhagorol ar waith i wella ansawdd. Mae'n hunan-feirniadol ac yn gwneud defnydd da iawn o ddata i wella deilliannau a darpariaeth. Ond nid yw'r un o'r ddwy bartneriaeth a gafodd eu harolygu wedi gwneud trefniadau gwell na digonol i wella ansawdd. Nid yw'r partneriaethau yma'n gwneud digon i wella deilliannau a darpariaeth. Nid ydyn nhw'n cymharu safonau a darpariaeth yn erbyn rhai partneriaethau eraill, ac nid ydyn nhw'n rhannu arfer dda yn ddigon da.

Eleni fe ganfuon ni fod llawer o'r darparwyr yn gweithio'n dda gyda'u partneriaid i gynllunio a chyflwyno dewis da o gyrsiau ar draws y bartneriaeth. Mae awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach yn cynnig llawer o gymorth i'r partneriaid eraill fel sefydliadau'r sector gwirfoddol. Mae'r coleg yn gweithio'n llwyddiannus gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol meysydd fel hyfforddi gweithwyr ieuenctid a dysgu troseddwyr.

Mae'r graddau y mae'r partneriaethau'n rheoli'r adnoddau sydd ar gael ar eu cyfer yn amrywio gormod. Mae cymwysterau a phrofiad priodol gan fwyafrif o'r staff ar gyfer y cyrsiau maen nhw'n eu haddysgu. Mae pob un o'r darparwyr yn cynnig dewis da o gyfleoedd hyfforddi i'w staff. Ond nid yw'r hyfforddiant staff yn un o'r partneriaethau DOG yn effeithio digon ar y broses o godi safonau ac o wella ansawdd yr addysgu. Digonol yn unig yw addysgu gormod o diwtoriaid, ac nid yw'r safonau mae'r dysgwyr yn eu cyflawni wedi gwella digon.

Mae'r darparwyr yn rhannu holl adnoddau'r partneriaethau'n dda, ac maen nhw'n gwneud defnydd llawn o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned. Mae'r coleg a gafodd ei arolygu'n gwneud defnydd da o wybodaeth ariannol er mwyn cymharu ei gostau â chostau darparwyr eraill.

Ffigur 2.37: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Dysgu yn y system gyfiawnder

Eleni fe weithion ni gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar arolygiad byr o'r unig uned yng Nghymru i bobl ifanc ar remand a phobl ifanc sydd wedi'u dedfrydu. Fe gymeron ni ran hefyd mewn arolygiad llawn o'r carchar mwyaf i oedolion yng Nghymru.

Ar ben hynny fe wnaethon ni adolygiad ar y cyd o'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Deilliannau

Mae deilliannau'n dda yn yr uned i bobl ifanc. Mae'r holl bobl ifanc bron yn cyflawni cymhwyster perthnasol ac yn symud ymlaen at gwrs ar lefel uwch.

Yn y carchar i oedolion, mae'r cyfraddau llwyddo'n dda iawn yn y dosbarthiadau galwedigaethol, ac yn y dosbarthiadau addysg gyffredinol.

Darpariaeth

Mae'r uned i bobl ifanc yn cynnig mwy a mwy o gyrsiau diddorol a pherthnasol. Mae'r bobl ifanc yn treulio mwy o amser nag o'r blaen allan o'u celloedd yn gwneud rhyw weithgarwch bwriadol.

Yn y carchar i oedolion, mae'r dewis o weithgareddau addysg yn dda, ond nid oes digon o leoedd gweithgarwch i alluogi pob un o'r carcharorion i gael cyfleoedd cyflogaeth ac addysg.

Mae amrywio mawr yn nifer yr oriau o addysg mae plant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â thimau troseddau ieuenctid yn eu cael i fynychu darpariaeth addysgol arall yn hytrach nag ysgolion prif ffrwd. Mae rhai'n cael dwy awr y diwrnod yn unig, ac nid yw rhai'n cael unrhyw addysg o gwbl.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Yn yr uned i bobl ifanc, mae'r rheolwyr yn cydweithio'n dda â'r ysgolion i roi cyfle i'r bobl ifanc barhau â'u hastudiaethau yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.

Yn y carchar i oedolion, boddhaol yw'r gwaith o arwain a rheoli'r ddarpariaeth addysgol.

Mae'r byrddau rheoli ar y cyfan wedi gwella'u gwaith o arwain a rheoli'r gwasanaethau troseddau ieuenctid. Ond nid yw'r awdurdodau lleol o hyd yn monitro'n ddigon da safonau a lles y plant a'r bobl ifanc yma.